# CRONFA GRANT CYMUNEDAU

## Adroddiad Cynnydd - Chwefror 2020







Cronfa Grant Cymunedau

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Strong Communities Grant Fund

# Rhagair – Mawrth 2022

Roedd yr adroddiad canlynol ar fin cael ei gwblhau ym mis Chwefror 2020, wrth i ddyfodiad Covid-19 ddod yn arwydd o gyfnod o heriau digynsail i gymunedau'r Fro. Bryd hynny, nid oedd llawer o'r prosiectau a restrir yn yr adroddiad hwn wedi dechrau eto neu roeddent hanner ffordd i'w cwblhau.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach gallwn ddathlu gwydnwch a phenderfyniad rhyfeddol cymunedau'r Fro wrth wireddu'r prosiectau a ddatblygwyd ganddynt cyn y pandemig. Er bod yr astudiaethau achos yn yr adroddiad yn adlewyrchu cynnydd prosiectau fel yr oeddent ym mis Chwefror 2020, mae rhestr lawn o brosiectau sydd bellach wedi'u cwblhau wedi'u nodi isod.

**O'r 56 o brosiectau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, mae'r 51 canlynol bellach wedi'u cwblhau.**

**Ceisiadau dros £10,000**

- Neuadd Bentref Aberthin
- Canolfan Gelfyddydau'r Memo, Y Barri
- Cadogs Corner
- Maes Chwarae Tregolwyn
- Grŵp Sgowtiaid y Bont-faen
- Trafnidiaeth Gymunedol Dwyrain y Fro
- GVS
- Cynor Cymuned Llandochau
- Cyngor Cymuned Pen-llin
- Cymru Adferol
- Clwb Bowlio Romilly
- Llyfrgell Gymunedol Gwenfô
- Age Connects
- Eglwys Unedig y Barri
- Eglwys Gethodistaidd Tregatwg
- Ymddiriedaeth Siarter y Bont-faen
- Clwb Tenis Y Bont-faen
- Gibby Green Fingers
- Ymddiriedaeth Arloesi
- Canolfan Gymunedol Murchfield
- Neuadd Gymunedol Eglwys Llanbedr-y-fro
- Sinema Gymunedol y Rhws
- Y Clwb Rhyngsynhwyraidd
- YMCA

**Ceisiadau rhwng £1,000 a £10,000**

- Eglwys All Saints Southerndown
- Grŵp Cadwraeth Tregatwg
- Canolfan Gwylwyr y Lannau Trwyn Nell
- Grŵp Sgowtiaid Dinas Powys
- Cymdeithas Cymuned Penarth Isaf
- Neuadd Bentref Aberogwr
- Neuadd Gymunedol Y Rhws
- Pwyllgor Neuadd Eglwys Sant-y-brid
- The Exchange
- Neuadd Gymunedol Treoes
- Clwb Gwaith Cartref Rhieni/Plant y Fro
- Neuadd Bentref Gwenfô
- Clwb Pêl-droed Barry Athletic
- Canolfan Gymunedol Castleland
- HEB
- Neuadd Bentref Llansannor
- Motion Control
- Pukka Productions
- Festri Saron
- Sinema Gymunedol Sili
- The Memory Jar
- Cymdeithas Preswylwyr Tŷ Cadog
- Y Fro a Mwy

**Ceisiadau hyd at £1,000**

- Coed Hills
- Canolfan Margaret Alexander
- The Gathering Place
- Cymdeithas Gymunedol Llyswyrny
- Grŵp Menywod Rainbow












# Cynnwys


TROSOLWG ........................................................................................... 5

Trosolwg fel yn Chwefror 2020......................................................................... 5

CEISIADAU A GYMERADWYWYD ................................................................... 6

Rhestr o geisiadau a gymeradwyir yn Chwefror 2020 (Rowndiau 1- 5) .......................6-8

FFEITHLUNIAU ..................................................................................... 9-10

Cipolwg - perfformiad hyd yma......................................................................... 9

Cipolwg - marchnata'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf ......................................10

MANYLION Y PROJECT...............................................................................11-64


## CEISIADAU DROS £10,000


Neuadd Bentref Aberthin...................................................................................11

Age Connects .................................................................................................12

Ymddiriedaeth Amelia .......................................................................................13

Canolfan Gelfyddydau'r Memo, Y Barri ............................................................14

Eglwys Unedig y Barri .......................................................................................15

Cadogs Corner .................................................................................................16

Eglwys Fethodistaidd Tregatwg..........................................................................17

Maes Chwarae Tregolwyn..................................................................................18

Ymddiriedaeth Siarter y Bont-faen .....................................................................19

Grŵp Sgowtiaid y Bont-faen...............................................................................20

Clwb Tenis y Bont-faen .....................................................................................21

Trafnidiaeth Gymunedol Dwyrain y Fro .............................................................22

Gibby Green Fingers..........................................................................................23

GVS .................................................................................................................24

Ymddiriedaeth Arloesi .......................................................................................25

Cyngor Cymuned Llandochau.............................................................................26

Canolfan Gymunedol Murchfield .......................................................................27

Cyngor Cymuned Pen-llin...................................................................................28

Neuadd Gymunedol Eglwys Llanbedr-y-fro..........................................................29

Cymru Adferol ..................................................................................................30

Sinema Gymunedol y Rhws................................................................................31

Clwb Bowlio Romilly..........................................................................................32

Y Clwb Rhyngsynhwyraidd..................................................................................33

Llyfrgell Gymunedol Gwenfô ........ 34
YMCA ........ 35

CEISIADAU RHWNG £1,000 A £10,000
Eglwys All Saints Southerndown ........ 36
Clwb Pêl-droed Barry Athletic ........ 37
Grŵp Cadwraeth Tregatwg ........ 38
Canolfan Gymunedol Castleland ........ 39
Canolfan Gwylwyr y Lannau Trwyn Nell ........ 40
Grŵp Sgowtiaid Dinas Powys ........ 41
HEB ........ 42
Neuadd Bentref Llansannor ........ 43
Clwb Tenis Llanilltud Fawr ........ 44
Cymdeithas Cymuned Penarth Isaf ........ 45
Motion Control ........ 46
Neuadd Bentref Aberogwr ........ 47
Pukka Productions ........ 48
Neuadd Gymunedol y Rhws ........ 49
Festri Saron ........ 50
Pwyllgor Neuadd Eglwys Sant-y-brid ........ 51
Sinema Gymunedol Sili ........ 52
The Exchange ........ 53
The Memory Jar ........ 54
Neuadd Gymunedol Treoes ........ 55
Cymdeithas Preswylwyr Tŷ Cadog ........ 56
Clwb Gwaith Cartref Rhieni/Plant y Fro ........ 57
Y Fro a Mwy ........ 58
Neuadd Bentref Gwenfô ........ 59

CEISIADAU HYD AT £1,000
Coed Hills ........ 60
Cymdeithas Gymunedol Llyswyrny ........ 61
Canolfan Margaret Alexander ........ 62
Grŵp Menywod Rainbow ........ 63
The Gathering Place ........ 64

# Trosolwg: Chwefror 2020

**Ers i'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf gael ei lansio ym mis Awst 2017, a diwedd mis Chwefror 2020, mae grantiau gwerth £781,722* wedi'u dynodi i 56 o brosiectau ledled Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid: Sefydliad Waterloo; Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned wedi ymuno i gefnogi projectau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i bobl a chymunedau yn y Fro.**

**Mae'n amlwg bod gan y Fro gymunedau bywiog ac actif. Rydym wedi derbyn dros 250 o ymholiadau gan grwpiau sydd wedi ymrwymo i wneud newidiadau positif yn yr ardaloedd y maen nhw'n byw ynddynt. Gyda chymorth y gronfa, mae grwpiau llwyddiannus wedi dangos tystiolaeth ac wedi bodloni meini prawf cymhwysedd y GCC i gyflawni projectau ymgysylltu gyda'u cymunedau a chynaliadwyedd ystyrlon. Gan weithio gyda'i gilydd, gallwn gyflawni gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Fro, sef 'Cymunedau cryf gyda dyfodol disglair'.**

***'Bydd y grantiau Cymunedau Cryf a gymeradwywyd hyd yma'n cyfrannu at gyflawniad y projectau gyda chyfanswm gwerth fydd yn fwy na £2.74 miliwn, a bydd hyn oll yn dod â buddion mawr i gymunedau ledled y Fro'***

Mae'r Gronfa'n cefnogi projectau 'unigol' ond mae hefyd wedi cynnig arian cyfatebol gwerthfawr lle bo angen i gyflawni mentrau ar raddfa fawr. Mewn sawl achos mae'r grant yn elfen allweddol ar becyn cymorth gan sawl ariannwr fydd yn helpu sefydliadau i ddefnyddio asedau newydd neu sicrhau dyfodol eu hasedau presennol i genedlaethau'r dyfodol. Bydd llawer o brojectau'n helpu'r preswylwyr sydd fwyaf ynysig i gael mynediad at gymorth ac i integreiddio'n rhwyddach gyda bywyd cymunedol. Mae mynd ar ôl unigedd, boed hynny mewn perthynas ag oedran, oherwydd diffyg trafnidiaeth, diffyg incwm, rhwystrau diwylliannol neu ddiffyg hyder, yn flaenoriaeth i lawer o sefydliadau yr ydym wedi cefnogi.

**Erbyn diwedd mis Chwefror 2020, roedd 32 o brosiectau wedi'u cwblhau ers lansio'r Gronfa ac roedd 8 arall ar y gweill.** Mae graddfa'r projectau cyflawni yn amrywio o brynu un eitem o offer cerddorol i bentref gyda llai na 100 annedd i adfywio neuadd gymunedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o dros 2000 o bobl. Thema gyffredin yw cefnogi projectau sy'n dod â phobl ynghyd yn agos i'w cartrefi. Mae ein grantiau'n helpu pobl ledled y Fro i ddefnyddio'r gwasanaethau y maent wedi'u nodi yn rhai y mae mawr eu hangen, drwy gymorth ar gyfer hyfforddiant, hamdden neu weithgareddau cymdeithasol a'r llu o sefydliadau a gwirfoddolwyr sy'n darparu'r rhain.

Mae manylion am brojectau cymeradwy, eu cynnydd a'u heffaith ar y cymunedau lleol maen nhw'n eu cefnogi yn rhan o'r adroddiad hwn. Ceir ffeithluniau sy'n arddangos y perfformiad hyd yma ac egluro'r ffordd yr ydym yn rhannu'r neges am y Gronfa Grant Cymunedau Cryf. Hwn yw'r ail adroddiad interim sy'n rhan o'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf. Hwn yw'r trydydd adroddiad interim sy'n rhan o'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy gydol y rhaglen ariannu.

**Mae hwn yn ffigur amrywiol oherwydd bod arian Adran 106 wedi cael ei ddyrannu eisoes ar gyfer sawl project, gan ryddhau mwy na £109,000 yn ôl i'r Gronfa Cymunedau Cryf. Nid yw dau broject a gymeradwywyd wedi'u cynyddu*

# CEISIADAU A GYMERADWYWYD: CHWEFROR 2020

| **Ceisiadau dros £10,000** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rownd** | **Ymgeisydd** | **Project** | **Cynnig grant** | **Statws** | **Ward** |
| R3 | Neuadd Bentref Aberthin | Gwelliannau i adeiladau – mynediad i bobl anabl/ cyfleusterau newid babis | £14,800 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R5 | Age Connects | Cymorth cymunedol ar gyfer darpariaethau | £37,500 | Parhaus | Ledled y Fro |
| R2 | Ymddiriedaeth Amelia | Astudiaeth o Ddichonoldeb | £20,000 | Aros i ddechrau | Y Rhws |
| R4 | Canolfan Gelfyddydau'r Memo, Y Barri | Destination Memo | £42,474 | Parhaus | Buttrills |
| R4 | Eglwys Unedig y Barri | The bridge between | £15,000 | Aros i ddechrau | Castleland |
| R5 | Cadogs Corner | Adnewyddu canolfan | £19,021 | Parhaus | Cadoc |
| R5 | Eglwys Fethodistaidd Tregatwg | Toiledau a chegin newydd i'r neuadd | £25,046 | Parhaus | Cadoc |
| R3 | Maes Chwarae Tregolwyn | Ardal chwarae i blant | £14,000 | Cwblhawyd | Llandŵ/Ewenni |
| R2 | Ymddiriedaeth Siarter y Bont-faen | Adfer Gerddi'r Hen Neuadd | £26,726 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R4 | Grŵp Sgowtiaid y Bont-faen | Offer, insiwleiddio'r to a gwaith mewnol | £16,950 | Parhaus | Y Bont-faen |
| R2 | Clwb Tenis Y Bont-faen | System archebu tenis talu a chwarae | £12,080 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R2 | Trafnidiaeth Gymunedol Dwyrain y Fro | Bws mini newydd a menter i ddenu gwirfoddolwyr | £33,732 | Parhaus | Augustines |
| R2 | Gibby Green Fingers | Gardd synhwyrol a chanolfan addysgol ar y safle | £16,800 | Parhaus | Gibbonsdown |
| R2 | GVS | Dod â WVICC yn ôl i ddefnydd a gwella darpariaeth y gwasanaethau | £53,094 | Aros i ddechrau | Llanilltud Fawr |
| R1 | Ymddiriedaeth Arloesi | Datblygu gardd fforest ym Mharc Porthceri | £28,059 | Parhaus | Illtyd |
| R3 | Cynor Cymuned Llandochau | Ardal gemau amlddefnydd | £44,634 | Parhaus | Llandochau |
| R2 | Canolfan Gymunedol Murchfield | Toiledau newydd a llawr newydd yn y brif neuadd | £35,000. | Cwblhawyd | Dinas Powys |
| R5 | Cyngor Cymuned Pen-llin | Offer man chwarae blynyddoedd cynnar Ystradowen | £16,945 | Parhaus | Y Bont-faen |
| R5 | Neuadd Gymunedol Eglwys Llanbedr-y-fro | Estyniad ochr/cefn | £15,000 | Parhaus | Peterston Super Ely |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| R1 | Cymru Adferol | Cyd-ddatblygu model hyb partneriaeth aml-asiantaeth adferol i ysgolion a theuluoedd y Fro.. | £22,879 | Cwblhawyd | Gibbonsdown |
| R1 | Sinema Gymunedol y Rhws | Offer ar gyfer y sinema gymunedol | £10,974. | Cwblhawyd | Y Rhws |
| R5 | Clwb Bowlio Romilly | Gwaith cyfalaf, ffenestri a gwresogi | £24,485 | Parhaus | Baruc |
| R4 | Y Clwb Rhyngsynhwyraidd | Clwb beicio addasol y fro | £17,520 | Cwblhawyd | Gibbonsdown |
| R4 | Valeways | | £26,950 | Tynnwyd yn ôl | Gibbonsdown |
| R5 | Llyfrgell Gymunedol Gwenfô | Cyfraniad i adeilad newydd | £40,000 | Parhaus | Gwenfô |
| R2 | YMCA | Boeleri newydd yn yr YMCA | £27,443 | Cwblhawyd | Court |
| **Ceisiadau rhwng £1,000 a £10,000** | | | | | |
| **Rownd** | **Ymgeisydd** | **Project** | **Cynnig grant** | **Statws** | **Ward** |
| R1 | Eglwys All Saints Southerndown | Trosi tir diffaith yn ardd heb lawer o gynnal a chadw | £2,495 | Cwblhawyd | Saint-y-brid |
| R4 | Clwb Pêl-droed Barry Athletic | Llawr newydd yn y prif bafiliwn | £4,896 | Cwblhawyd | Cadoc |
| R3 | Grŵp Cadwraeth Tregatwg | Gwefan, gwesty pryfaid a theclynnau | £1,554 | Cwblhawyd | Cadoc |
| R2 | Canolfan Gymunedol Castleland | System fwcio hyblyg a chaledwedd | £3,522 | Cwblhawyd | Castleland |
| R5 | HEB | Offer a chymorth addysg | £1,440 | Parhaus | Buttrills |
| R4 | Grŵp Sgowtiaid Dinas Powys | Estyniad i'r Neuadd Sgowtiaid | £10,000 | Parhaus | Dinas Powys |
| R3 | Neuadd Bentref Llansannor | Goleuadau'r neuadd bentref, system sain a thaflunydd | £7,131 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R4 | Clwb Tenis Llanilltud Fawr | Ffens, gatiau a physt | £4,688 | Cwblhawyd | Llanilltud Fawr |
| R5 | Cymdeithas Cymuned Penarth Isaf | System wres newydd | £3,398.51 | Parhaus | Plymouth |
| R3 | Motion Control | Project peilot | £4,799 | Cwblhawyd | Court |
| R5 | Canolfan Gwylwyr y Glannau Trwyn Nell | Offer | £1,931.98 | Parhaus | Baruc |
| R3 | Neuadd Bentref Aberogwr | Gosod cegin y neuadd bentref | £6,000 | Parhaus | Saint-y-brid |
| R2 | Pukka Productions | Dylunio ac adeiladu'r wefan newydd | £3,600 | Cwblhawyd | Cadoc |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| R2 | Neuadd Gymunedol Y Rhws | Ffenestri newydd ar gyfer y neuadd gymunedol | £5,250 | Cwblhawyd | Y Rhws |
| R1 | Festri Saron | Adnewyddu'r festri | £3,267 | Cwblhawyd | Llandŵ/ Ewenni |
| R4 | Pwyllgor Neuadd Eglwys Sant-y-brid | Grisiau a lloft a gwaith cysylltiedig | £7,976 | Cwblhawyd | Saint-y-brid |
| R2 | Sinema Gymunedol Sili | Offer i'r sinema gymunedol | £1,857 | Cwblhawyd | Sili |
| R2 | The Exchange | Ffioedd marchnata/proffesiynol i greu neuadd farchnad newydd i'r Bont-faen a'r Fro ehangach. | £10,000 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R5 | The Memory Jar | Taflunydd symudol | £2,000 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R1 | Neuadd Gymunedol Treoes | Adnewyddu Neuadd Gymunedol Treoes | £5,839 | Cwblhawyd | Llandŵ/Ewenni |
| R3 | Cymdeithas Preswylwyr Tŷ Cadog | Gerddi cymunedol | £949 | Cwblhawyd | Cadoc |
| R2 | Clwb Gwaith Cartref Rhieni/Plant y Fro | Cefnogi/hyfforddi gwirfoddolwyr clwb gwaith cartref yn Sain Tathan/Llanilltud Fawr | £9,508 | Cwblhawyd | Sain Tathan/ Llanilltud Fawr |
| R5 | Y Fro a Mwy | Cyflwyno prosiect yn Llanilltud Fawr | £9,640 | Parhaus | Llanilltud Fawr |
| R3 | Neuadd Bentref Gwenfô | Gwelliannau hygyrchedd | £8,146 | Cwblhawyd | Gwenfô |
| **Ceisiadau hyd at £1,000** | | | | | |
| **Rownd** | **Ymgeisydd** | **Project** | **Cynnig grant** | **Statws** | **Ward** |
| R1 | Cariad ar Waith | Gwnïo a chrefft i bawb | £1,000 | Tynnwyd yn ôl | Court |
| R3 | Coed Hills | Pwyswr afalau | £600 | Cwblhawyd | Y Bont-faen |
| R2 | Cymdeithas Gymunedol Llyswyrny | Prynu allweddell at ddibenion cymunedol. | £239 | Cwblhawyd | Llandŵ/Ewenni |
| R4 | Canolfan Margaret Alexander | Taflunydd sgrin ac offer sain | £993 | Cwblhawyd | Buttrills |
| R1 | Grŵp Menywod Rainbow | Offer ymarfer corff 'GEM' bychan | £1,000 | Cwblhawyd | Buttrills |
| R2 | The Gathering Place | Darparu clwb cinio i bobl hyn yn/o amgylch ardal Sain Tathan. | £891 | Cwblhawyd | Sain Tathan |

R1 – Rownd 1: 20 Tachwedd 2017
R2 – Rownd 2: 26 Mawrth 2018
R3 – Rownd 3: 1 Hydref 2018
R4 – Rownd 4: 18 Mawrth 2019
R5 – Rownd 5: 21 Hydref 2019

# CIPOLWG – PERFFORMIAD HYD YMA

Cronfa Grant Cymunedau


Strong Communities Grant Fund

## £781,722*
**dyfarnwyd hyd yma**

*Newidiol oherwydd dyraniad cyllid A106 i'r project cymwys ar ôl cymeradwyaeth y panel.


## 270
**ymholiadau a wnaed ers lansio fis Awt 2017**

## Mathau o sefydliadau a ariannwyd




## 56
**ymgeisydd llwyddiannus**

## 20
**ward wedi cael budd hyd yma**



# CIPOLWG - MARCHNATA

Cronfa Grant Cymunedau

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Strong Communities Grant Fund

## MARCHNATA

2 hysbyseb dargedig y talwyd amdanynt ar Facebook, yn cyrraedd 7918 o bobl

Pyst Facebook ar rowndiau cyllido newydd ar dudalennau Hyb Cymunedol

Pyst Facebook/Twitter rheolaidd gan @ValeEconomy a @VOGCouncil yn hysbysebu dyddiadau cau allweddol a straeon llwyddiant

## YN Y WASG

Y Man Casglu
Clwb Gwaith Cartref y Fro
Canolfan Gymunedol Murchfield

Hysbysebu'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn y papur newydd lleol

Y Barri a'r Cylch

The Gem

Logo'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf wedi'i anfon at ymgeiswyr llwyddiannus i'w ddefnyddio yn eu marchnata.
Ail-rannu drwy dudalennau cyfryngau cymdeithasol.
Manylion/lluniau wedi'u casglu ar gyfer astudiaethau achos.

Crëwyd tudalen we

Fideo YouTube wedi'i greu o'r ymgeisydd llwyddiannus, Sinema Gymunedol Y Rhws

Lluniwyd **3** adroddiad interim - Rhagfyr 2018 a Hydref 2019

Cyllid **A106** wedi'i hyrwyddo yn
**NINAS POWYS**
**PENARTH**
**Y RHWS**

Cyflwyniadau mewn lleoliadau cymunedol a chyfarfodydd pwyllgor

Taflenni ac e-byst wedi'u hanfon i leoliadau cymunedol gyda dyddiadau cau allweddol

Manylion/lluniau wedi'u casglu ar gyfer astudiaethau achos

Hyrwyddo drwy randdeiliaid, gan gynnwys cynghorau cymuned a gwasanaethau mewnol

Ffeithlun a thaflen wybodaeth wedi'u hanfon dros e-bost at 47 o aelodau gyda dyddiadau cau allweddol

Cyflwyniad yng nghyfarfod VVACDN (Rhwydwaith Gweithredu Gwirfoddol a Datblygu Cymunedol y Fro)

Erthygl ym mwletin newyddion Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

Post uniongyrchol i staff Gwasanaethau Gwirfoddol


# NEUADD BENTREF ABERTHIN

## GWELLIANNAU I'R ADEILADAU



### Alvinellids o'r Project

I wella hygyrchedd i'r neuadd drwy waredu'r llwybr serth grisiog a gwella cynllun y toiledau a'r neuadd groesawu i gynnwys tai bach i bobl anabl a chyfleusterau newid i fabanod.



### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Cwblhawyd gwaith i'r neuadd yn haf 2019. Mae'r gwelliannau angenrheidiol yn golygu y gall teuluoedd ifanc, henoed a phobl â symudedd cyfyngedig bellach fynd i mewn i'r neuadd yn haws. Mae mynediad a chyfleusterau yn golygu y daw mwy o bobl i ddigwyddiadau gan annog ystod fwy amrywiol o ddefnyddwyr fel grwpiau chwarae nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio'r lleoliad oherwydd y diffyg cyfleusterau newid babanod. Rhydd hyn incwm mwy cynaliadwy i'r grŵp a'r neuadd.

Mae'r grŵp eisoes wedi cael sawl ymholiad rhentu, fel ysgol ballet i blant a gâi fudd o'r

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £14,800

Cyfanswm cost y project: £20,025

Rownd 3

# AGE CONNECTS

## GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL




### Adroddiad Cynnydd - parhaus

Mae gan Age Connects 319 o wirfoddolwyr sydd ar hyn o bryd yn rhoi o'u hamser am ddim i helpu pobl hŷn. Gan adeiladu ar lwyddiant y sefydliad, y prosiect yw sefydlu gwasanaeth cymorth lles wedi'i adeiladu o amgylch siopa, sy'n paru gwirfoddolwyr unigol â phobl hŷn, fel bod cyfle i feithrin perthynas.

Credwn y bydd Prosiect Cymorth Cymunedol Lles yn ychwanegu gwerth sylweddol at y gwaith y mae'r elusen yn ei wneud ac yn gwella'r gwahaniaeth a wnawn i ansawdd bywyd pobl. Bydd ein gwirfoddolwyr yn wyneb cyfeillgar a all hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddigwyddiadau neu wasanaethau lleol y gallai fod eu hangen arnoch – gan roi tawelwch meddwl i chi a'ch teulu bod rhywun yn cadw llygad arnoch.

### Amlinelliad o'r Project

Bydd y grant yn ariannu rheolwr prosiect am flwyddyn i sefydlu'r gwasanaeth cymorth, recriwtio gwirfoddolwyr, a rheoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Ar ddiwedd blwyddyn bydd y gwasanaeth yn cael ei staffio'n llwyr gan wirfoddolwyr, gyda dim ond cost goruchwylio ac arwain lefel uchel gan staff cyclopedia sydd eisoes yn cael eu cyflogi gan Age Connects. Bydd y prosiect yn helpu i fynd i'r afael ag unigedd drwy ymweliadau rheolaidd, yn darparu cymorth ymarferol gyda pharatoi rhestrau, dosbarthu a dadbacio siopa ac yn cyfeirio pobl hŷn at yr ystod o wasanaethau cymorth eraill sydd ar gael iddynt. Mae gan y gwasanaeth y potensial i alluogi pobl hŷn i aros yn annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd.

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £37,500

Cyfanswm cost y project: £75,942

Rownd 5

# YMDDIRIEDAETH AMELIA

## ASTUDIAETH O DDICHONOLDEB



### Amlinelliad o'r Project

I benodi swyddog project llawn amser am dri mis i gynnal astudiaeth o ddichonoldeb gan gynnwys dadansoddiad o'r farchnad ac ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddefnyddiau amgen yr adeilad sy'n cael ei rentu i Uned Cyfeirio Disgyblion (Ysgol Y Daith) Cyfnod Allweddol 3 yr Awdurdod Lleol. Mae hefyd angen defnyddio cymorth proffesiynol e.e. penseiri, syrfëwr siartredig, syrfëwr meintiol a chyfreithwyr i roi cyngor ar y defnydd gorau o'r gofod i fodloni anghenion lleol ac ategu gweithgareddau presennol y Fferm heb ddyblygu'r gwasanaethau a roddir mewn rhannau eraill o'r Fro.

### Adroddiad Cynnydd – aros I ddechrau

Mae ystyried y defnydd gorau yn y dyfodol i adeiladau nas defnyddir ddigon yn y lleoliad cymunedol pwysig hwn yn flaenoriaeth. Estynnwyd yr amser i gwblhau'r astudiaeth o ddichonoldeb ers i gynlluniau'r Cyngor i adael yr Uned Cyfeirio Disgyblion gael ei symud yn ôl i Hydref 2020. Caiff yr astudiaeth ei chynnal i gyd-fynd â'r amserlen ddiwygiedig.

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £20,000

Cyfanswm cost y project: £20,000

Rownd 2

# CANOLFAN GELFYDDYDAU'R MEMO, Y BARRI

## DESTINATION MEMO



### Adroddiad Cynnydd - parhaus

Mae'r Memo wedi recriwtio Cydlynydd Allgymorth a Gwirfoddoli rhagorol ar gontract o flwyddyn ac mae deiliad y swydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i ymgysylltu â'r gymuned a recriwtio gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi galluogi'r ganolfan i ehangu ei rhaglen ddigwyddiadau ac yn ei dro denu demograffeg ehangach gan gynnwys plant ysgolion cynradd, disgyblion anghenion arbennig, oedolion ifanc 18-21 oed a phobl dros 60 oed. Eisoes, cyflawnwyd cynnydd o 35% yn nifer y mynychwyr yn 2018 gyda thros 2000 o ddisgyblion o'r Fro a Chaerdydd yn mynychu 4 sgriniad a gyflwynwyd ym mis Tachwedd. Hyd yma, recriwtiwyd 15 gwirfoddolwr, y mae rhai'n cael eu hyfforddi at dasgau swyddfa docynnau a gweinyddu gan roi sgiliau trosglwyddadwy newydd iddynt i roi hwb i'w hyder a'r gyflogaeth yn y dyfodol.  Mae prynu offer sganio E-docynnau yn galluogi gallu tocynnu mwy effeithiol ac mae'r feddalwedd rheoli cyfleusterau newydd wrthi'n cael ei sefydlu i greu system fwy deinamig. Mae offer marchnata TG newydd yn galluogi capasiti dylunio newydd ar gyfer adnoddau marchnata fel llyfrynnau tymhorol sydd wrthi'n cael eu datblygu.

*"Rydym eisoes wedi gweld budd sylweddol yng nghapasiti cyffredinol ein tîm i weithio'n fwy effeithiol, a chredwn fod hyn oherwydd y buddsoddiadau adnoddau a wnaed mewn offer, meddalwedd a'r person newydd i oruchwylio gwirfoddoli.  Mae adborth gan ymwelwyr wedi bod yn gadarnhaol, a chafwyd sylwadau dro ar ôl tro am ansawdd ac amrywiaeth y rhaglenni sy'n cael eu cynnig."*

### Amlinelliad o'r Project

Nod Destination Memo yw adeiladu ar y buddsoddiadau lleoliad diweddar a chefnogi parhau y cynllun datblygu drwy: hyrwyddo'r lleoliad yn fwy effeithiol, ehangu ymgysylltiad ag ysgolion, gwella profiad ymwelwyr y gynulleidfa, cynnig rhaglen ehangach, dal i gynnal digwyddiadau fforddiadwy i gynulleidfaoedd teuluol, ac yn y pen draw sicrhau nifer uwch o ymwelwyr a chreu incwm i alluogi twf cynaliadwy'r elusen. Mae strategaeth ddatblygu Memo ar y ffordd i gynyddu nifer yr ymwelwyr o 100,000 yn 2018 gan 25% yn 2019.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £42,474

Cyfanswm cost y project: £91,367

Rownd 4

# EGLWYS UNEDIG Y BARRI

## THE BRIDGE BETWEEN




### Adroddiad Cynnydd – aros I ddechrau

Mae project The Bridge Between ar y trywydd i godi'r swm llawn o'r cyllid gofynnol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, gydag £1.1m o'r £1.5m eisoes wedi'i godi a'i sicrhau. Mae'r cais am Gyllid Pobl a Llefydd wedi cyrraedd yr ail am (£250,000) a gyda rhai grantiau llai byddant yn cyrraedd y targed. Mae'r Project wrth ar Dendr am Gontractwr. Y cyfleuster Newid Lleoedd a gefnogodd y grant yn rhannol yw'r eitem fwyaf o wariant i'r project.

*"Mae'r grant hwn wedi bod yn hanfodol i'r project ac wedi bod yn ddolen am arian cyfatebol ar gyfer y gost lawn. Ystyriwyd elfen Newid Lleoedd y project yn hanfodol i'w lwyddiant gan iddo ehangu nifer y bobl y gallai gweithgareddau'r ganolfan eu cefnogi.*

*"Gyda'r ganolfan yn agor erbyn diwedd 2020, bydd y cyfleuster Newid Lleoedd yn gam cyntaf i'r sawl ag anghenion sylweddol i gyfrannu, ystyried, datblygu diddordebau newydd, ffrindiau a sgiliau. Rydym mor ddiolchgar am gefnogaeth Cymunedau Cryf."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae Elwy's Unedig y Barri'n gweithio gyda Chymdeithas Tai Newydd, Purple shoots a Miss Tilley's Community Café i adeiladu Pont rhwng y Ganolfan Gymunedol a fyddai'n rhoi gwasanaethau gwell i'r gymuned yn ward Castleland yn y Barri (hen ardal Cymunedau yn Gyntaf), gan roi canolfan gymunedol newydd i drigolion lleol i ddatblygu gwasanaethau, arweiniad a phrojectau partneriaeth sy'n agor drysau i bosibiliadau a chyfleoedd newydd i unigolion ddatblygu sgiliau a diddordebau newydd. Mae'r cais ar gyfer grant tuag at gyfleusterau tŷ bach Anabl Newid Lleoedd o fewn y datblygiad newydd.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £15,000


Cyfanswm cost y project: £77,000

Rownd 4

# CADOG'S CORNER

## GWELLA CANOLFAN GYMUNEDOL PARC FICTORIA





### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Lleolir Canolfan Gymunedol Parc Fictoria yng nghanol Tregatwg yn agos i adeilad meithrinfa a neuadd chwaraeon yr Ysgol Gynradd. Mae defnyddwyr rheolaidd y neuadd yn cynnwys Ysgol Ddawns, Bingo a Sefydliad y Merched ac mae'n gartref i Grŵp Datblygu Cadogs Corner. Ers mis Medi 2017, mae'r ysgol wedi bod yn defnyddio'r adeilad yn fwy, yn enwedig gyda phrosiectau a digwyddiadau sy'n cynnwys rhyngweithio â rhieni neu oedolion eraill.

"Rydym bellach yn cymryd mwy o archebion ar gyfer yr adeilad a byddai gwella'r cyfleusterau a sicrhau mynediad hawdd i'r ardal awyr agored yn gwneud y lle yn fwy deniadol i logwyr. Bydd gwell mynediad i'r ardd yn ein helpu i ddatblygu'r ardal yn rhywbeth y gall y gymuned fod yn falch ohoni".

### Amlinelliad o'r Project

Bydd y prosiect yn adnewyddu a gwella'r Ganolfan Gymunedol. Un o'r nodau allweddol yw gwneud y defnydd gorau o le awyr agored nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol drwy osod drysau deublyg yn lle'r ffenestri uchder drws presennol a drws tân. Byddai gwella'r ardal awyr agored a'r mynediad iddi yn cynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu gardd gymunedol, i ehangu'r ystod o gyfleoedd chwarae i'r grŵp rhieni a babanod ac i gynnal grŵp lles oedolion a chlwb brecwast. Bydd cynnig cyfle i ddefnyddio gardd sydd hefyd yn tyfu perlysiau ar gyfer cawl cartref ac ati yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles defnyddwyr ac yn darparu lleoliad mwy deniadol i bob

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant:
£19,021

Cyfanswm cost y project:
£19,521

Rownd 5

# EGLWYS FETHODISTAIDD TREGATWG

## ADNEWYDDU'R NEUADD UCHAF



### Amlinelliad o'r Project

Bydd y prosiect yn darparu toiledau hygyrch modern newydd ac yn uwchraddio'r gegin hen ffasiwn. Bydd y gegin newydd yn caniatáu i fwyd gael ei goginio ar y safle, a fydd yn helpu grwpiau presennol fel y geidiaid a'r grŵp caffi amlddiwylliannol i gyflawni eu gweithgareddau. Dylai'r cyfleusterau gwell hefyd helpu i ddenu defnyddwyr newydd sy'n chwilio am gyfleusterau arlwyo.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae neuadd eglwys Fethodistaidd Tregatwg yn gartref i nifer o grwpiau cymunedol lleol gan gynnwys Côr Tenovus, Banc Bwyd y Fro, y Brownis a'r Geidiaid. Cynhelir gweithgareddau cymunedol gan wirfoddolwyr yr eglwys neu gan arweinwyr y grwpiau sy'n rhentu'r neuadd. Wedi'i adeiladu yn y 1930au, mae defnyddwyr yn nodi bod y toiledau'n oer, yn llaith ac yn anaddas i bobl anabl ac ar gyfer newid babanod. Mae angen buddsoddi yn y neuadd i sicrhau ei bod yn parhau i ddarparu cyfleusterau modern a deniadol am flynyddoedd i ddod.

*"Byddai cegin a thoiledau newydd yn wych a byddent yn helpu i fodloni anghenion aelodau'r côr sy'n mynd drwy driniaeth canser yn well (arweinydd côr Sing with Us Tenovus y Barri)."*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £25,046

Cyfanswm cost y project: £37,046

Rownd 5

# MAES CHWARAE TREGOLWYN

## ARDAL CHWARAE I BLANT



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Wedi'i gwblhau ym Mai 2019, mae'r ardal yn cynnwys siglenni, unedau dringo, llithrfeydd newydd a throgylch hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn ogystal â'r offer newydd, mae'r ardal chwarae wedi cael arwyneb newydd gyda seddi a biniau newydd wedi'u gosod. Wedi'i ariannu ar y cyd â chyfraniadau Adran 106 a gyda'r Cyngor yn rheoli gwaith adeiladu, mae'r project yn dangos y buddion enfawr y gellir eu cyflawni pan fydd timau'n cydweithio â grwpiau cymunedol lleol i wneud y mwyaf o gyllid a chyflawni cynllun sy'n bodloni anghenion lleol.

*"Mae chwarae'n rhan mor bwysig o ddatblygiad plant ac mae gan blant a phobl ifanc Tregolwyn bellach gyfleusterau hygyrch o safon ar garreg eu drws"*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r project i newid hen gyfleusterau maes chwarae Tregolwyn ag offer sy'n bodloni anghenion plant 1-12 oed o'r Pentref a'r cyffiniau. Mae'n cynnwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Clwb Ar Ôl Ysgol, grŵp babanod a phlant bach Tregolwyn, Brownies, Geidiau a phlant Tregolwyn a'r cyffiniau. Mae'r maes chwarae wedi bod yno ers dros 20 mlynedd, daeth i'r Pentref yn ail law o'r Barri ac mae mewn cyflwr difrifol.

**CIPOLWG**

**Cyfanswm y grant: £14,000**

**Cyfanswm cost y project: £73,900**

**Rownd 3**

# YMDDIRIEDAETH SIARTER Y BONT-FAEN

## GERDDI'R HEN NEUADD



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Cafodd yr Ymddiriedolaeth ganiatâd cynllunio llawn yn Hydref 2018, gan oresgyn y rhwystr olaf a ataliodd y project rhag dechrau.  Daw arian partneriaeth gan Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r UE: Mae Cronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf y Cyngor wedi rhoi arian cyfatebol gwerthfawr. Mae'r Ymddiriedolaeth a'i gwirfoddolwyr wedi gwarchod Muriau'r Dref a Gerddi'r Hen Neuadd dan Drwydded â'r Cyngor ers dros 10 mlynedd. Yn ddiweddar cafodd yr Ardd Faner Werdd am y drydedd flynedd yn olynol ac mae'r project wedi bod yn gam mawr yn adfywiad Gerddi'r Hen Neuadd a'r ardal gyfagos.

*"Fel un o ddim ond pedair tref gaerog yn Ne Cymru, rydym ni yn yr Ymddiriedolaeth yn edrych ymlaen at allu dangos treftadaeth y dref i'w thrigolion a'i hymwelwyr, na fu yng ngolwg y cyhoedd ers dros 50 mlynedd. Hoffai'r Ymddiriedolaeth ddiolch i'r Gronfa Cymunedau Cryf am ei chymorth yn ystod cam ariannu'r project…"*

### Amlinelliad o'r Project

Nod y project yw gwella mynediad i a'r defnydd o asedau cymunedol pwysig: bargod pob tywydd dan y Gofod Stori a fydd yn gallu cael ei ddefnyddio gydol y flwyddyn; bwrdd gwybodaeth electronig fydd yn rhoi dehongliadau 24/7; gwaredu llociau gwartheg segur a blynyddoedd o segurdod yn datgelu llinell a chastelliad y Mur hanesyddol y Dref (Gradd 2*) ac yn hwyluso â'i adferiad; rheilins llaw fydd yn cynnig mynediad diogel i'r rhagfuriau, arwyddion newydd yn nodi mynediad i'r gerddi.

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £26,726

Cyfanswm cost y project: £133,629

Rownd 2

# GRŴP SGOWTIAID Y BONT-FAEN

## OFFER, INSWLEIDDIO TO A GWAITH MEWNOL



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Dyrannwyd yr arian i raglen o welliannau i Neuadd y Sgowtiaid a ddechreuodd ddechrau'r flwyddyn.  Mae'r grŵp eisoes wedi talu am lawr newydd, a helpodd yr arian grant â'r ail gam a oedd yn cynnwys inswleiddio ac mae bellach yn llawer cynhesach..Mae'r tu fewn i'r neuadd wedi'i ail-addurno, gyda phopeth yn cael ei beintio o'r newydd gan gynnwys y gwaith dur a oedd yn plicio'n wael. Crëwyd ystafell newydd ar y balconi uchaf ar gyfer storio offer.   Mae bellach ystafell gyfarfod newydd sy'n gynnes ac wedi'i hinswleiddio o weddill y neuadd, sy'n galluogi i gyfarfodydd ar wahân gael eu cynnal pan fo'r brif neuadd yn cael ei defnyddio gan grwpiau eraill. Gall hefyd gael ei ddefnyddio gydol y flwyddyn. Arferai fod yn rhy oer ac roedd yn ddrud cynhesu'r neuadd gyfan.  Cafodd y project effaith ar unwaith.

*"Rydym wedi treblu nifer yr archebion wythnosol/misol i'r grwpiau cymunedol eraill sy'n defnyddio'r neuadd gyda 3 grŵp newydd yn ei chadw. Mae'r holl grwpiau sgowtio wedi cytuno y bydd yn gwella eu gweithgareddau wythnosol gan fod y gofod yn llawer mwy hyblyg. Rydym wedi cynyddu ein haelodaeth sgowtiaid gyda grwpiau newydd am ddefnyddio'r neuadd. Bydd yn ein gwneud yn grŵp mwy cynaliadwy, gan fod yr archebion wythnosol yn golygu bod gennym ffynhonnell incwm reolaidd arall (sy'n golygu y gallwn bellach dalu i gynnal a chadw'r neuadd a'r ardd). Mae'n gwneud y neuadd yn fan defnyddiol a braf i'r gymuned gyfan ei ddefnyddio. Ar y cyfan, bu'n llwyddiant ysgubol, ac rydym yn ddiolchgar iawn i SCGF am ystyried a chymeradwyo ein cais."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r grŵp angen rhai eitemau allweddol i sicrhau fod ganddo bopeth sydd ei angen arno'n hytrach na dibynnu ar offer a fenthycir.

Mae angen gwella cyflwr addurniadol mewnol y neuadd a gosod offer gwell a newydd i alluogi'r grŵp i gynnal ystod ehangach o weithgareddau a gwneud y neuadd yn fwy deniadol i ddefnyddwyr eraill - sy'n cynnwys inswleiddio'r to ac ail-beintio mewnol.

Mae hefyd angen ardal storio. Byddai storfa benodedig yn rhyddhau lle yn yr ystafell i'r grŵp a defnyddwyr eraill.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £16,950

Cyfanswm cost y project: £16,950

Rownd 4

# CLWB TENIS Y BONT-FAEN

## SYSTEM ARCHEBU TENIS TALU A CHWARAE




### Amlinelliad o'r Project

Buddsoddi mewn gât glo â chod,system reoli gyfrifiadurol a ffensys diogelwch. Does do, cyrtiau tenis cyhoeddus yn y Bont-faen ar hyn o bryd. Mae'r project hwn yn agor cyfleusterau'r clwb i'r gymuned ehangach ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio cymaint â phosibl. Mae'r project yn helpu'r clwb i reoli a monitor pob archeb yn effeithlon. Ei nod yw hyrwyddo integreiddiad cymdeithasol drwy wella.

### CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £12,080

Cyfanswm cost y project: £14,109

Rownd 2

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Cwblhawyd y project yn brydlon er mwyn gallu manteisio'n llawn ar yr haf poeth a gawsom eleni. Gall pobl nad ydynt yn aelodau o'r clwb archebu a thalu am gwrt ar-lein pan nad yw'r cyrtiau'n cael eu defnyddio. Roedd y clwb yn falch iawn o weld pa mor boblogaidd oedd y cynllun, ac mae'r Ganolfan Chwaraeon wedi chwarae rhan actif o ran hyrwyddo'r cyrtiau fel cyfleuster i unrhyw un sydd am eu defnyddio, waeth beth fo'u gallu a heb fod yn aelod o'r clwb.

*"Mae'r grant wedi'n helpu ni i nodi nifer yr archebion ers i'r gât gael ei gosod ym mis Mehefin 2018. Mae'r gât wedi rhoi ffordd hawdd i'r gymuned i archebu cwrt ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw"*

# TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL DWYRAIN Y FRO

## BWY MINI NEWYDD A RHAGLEN TYWYSWYR



### Amlinelliad o'r Project
Cyflwyno bws mini (12 oed) yn lle'r hyn sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd a menter newydd i ddenu wirfoddolwyr newydd.

### Adroddiad Cynnydd - parhaus
Bellach, mae TGDF yn berchnogion balch ar fws mini â 16 sedd o'r enw Donnie, ar ôl un o sefydlwyr y grŵp! Mae gan y cerbyd lifft penodol ar gyfer cadeiriau olwyn, ac mae'n fws mwy na'r hen un sy'n golygu bod modd cynnig cymorth i fwy o grwpiau.

*"Mae cael bws mini mwy a newydd yn golygu ein bod wedi gallu rhoi cyfleoedd i'n haelodau i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol – ni fyddai hyn yn bosibl fel arall"*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £33,732

Cyfanswm cost y project: £43,732

Rownd 2

# GIBBY GREEN FINGERS

## GARDD SYNHWYRAIDD A CHANOLFAN ADDYSGOL AR Y SAFLE



### Adroddiad Cynnydd - parhaus

Mae'r grŵp wedi prynu peiriannau torri gwair, strimeri ac ystod o offer llaw mewn gwelliannau dramatig i'r ardd gymunedol. Mae mwy o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio o ganlyniad i'r grŵp yn cofrestru â'r cynllun Bancio Amser. Gwelwyd llawer o ddiddordeb yn y safle o blith grwpiau cymunedol ac unigolion ac mae proffil y rhandir cymunedol wedi cael ei godi. Mae sesiynau a gweithgareddau rheolaidd dros fisoedd prysur yr haf a thîm craidd o wirfoddolwyr rhagorol sy'n gwneud rhedeg y rhandir yn effeithiol, gyda thros 100 o bobl yn cyfrannu. Gwnaed cysylltiadau â chwaer-brojectau (Oakfield / Ysgol Gynradd Gwaun-y-Nant a'r Ardd Gymunedol a Gardd Gymunedol Margaret Avenue) sydd wedi galluogi mwy o bobl i gyfrannu at wirfoddoli cymunedol.

*"Rydym wir yn mwynhau bod yn rhan o'r ardd gymunedol, i ni mae'n rhan fawr o'n bywyd pob dydd. Mae cwrdd ag eraill, bod tu allan a gwirfoddoli i helpu eraill yn rhoi boddhad mawr ac mae ennill Credydau Amser yn ein helpu i fwynhau gweithgareddau eraill yn y gymuned rydym yn byw ynddi."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae gan y safle ar hyn o bryd 3 gwely blodau gwag, gardd synhwyraidd, decio, 2 bolidwnnel, 8 gwely wedi'u codi, tŷ haf, cynhwysydd dur, sied, nodwedd ddŵr sydd angen ei gosod, tŷ bach bio-bwll ac ardal farbyciw. Hoffai'r grŵp ddatblygu'r ardd synhwyraidd drwy wneud y ramp yn hygyrch. Fel rhan o raglen deledu Let's Ger a Good Thing Going edrychodd y grŵp ar godi arian i orffen yr ardd synhwyraidd. Byddai hyn yn cynnwys cwblhau ardal y babell, mannau di-lithr i wneud yr ardal yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, prynu clustogau, clychau gwynt, drychau plyg a chadeiriau meddal synhwyraidd. Byddai angen offer synhwyraidd a symudol ar yr ardd gan gynnwys hoistiau symudol. Y nod yw datblygu Canolfan Addysg ar y safle, i weithio gyda rhanddeiliaid a chynyddu ymwybyddiaeth gan yn benodol ei chysylltu â phrojectau ysgolion lleol a'r gymuned.

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £16,800

Cyfanswm cost y project: £25,800

Rownd 2

# GVS

## DOD Â WVICC YN ÔL I DDEFNYDD



### Amlinelliad o'r Project

I ail-ddefnyddio'r adeilad a elwir yn Ganolfan Blant Integredig Gorllewin y Fro (WVICC) ac i wella gwasanaethau i blant, pobl ifanc, sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a menter gan sicrhau bod yr adeilad yn fod yn ganolog i'r gymuned a gweithgarwch digidol a menter wrth fodloni anghenion Llanilltud Fawr a Gorllewin y Fro.

### Adroddiad Cynnydd – aros I ddechrau

Bydd y grant Cymunedau Cryf yn rhoi arian cyfatebol hanfodol fel rhan o'r gwaith adnewyddu helaeth ac uwchraddio'r WVICC. Gyda chefnogaeth Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru a nifer o arianwyr eraill, bydd y projectau yn trawsnewid yr adeilad cymunedol gwag yn hyb o weithgarwch cymunedol. Mae GVS yn gobeithio bod mewn sefyllfa i lofnodi'r brydles ar yr adeilad cyn Nadolig eleni.

Yn y cyfamser, maent yn paratoi i brofi'r farchnad am ddiddordeb i gynnal y feithrinfa'n y llety newydd, un o sawl gwasanaeth allweddol a gynigir o'r ganolfan a adnewyddir..

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £53,094

Cyfanswm cost y project: £265,470

Rownd 2

# YMDDIRIEDAETH ARLOESI

## GARDD FFOREST YM MHARC PORTHCERI



### Amlinelliad o'r Project

Mae'r Project yn cefnogi oedolion ag anableddau dysgu i wneud gwaith cadwraeth ochr yn ochr â'r tîm gwarcheidwaid ym Mharc Porthceri. Yn ogystal â'r mwynhad y mae'r cyfranogwyr yn ei gael wrth gymryd rhan, mae'r project yn bwysig gan ei fod yn rhoi cyfle iddynt i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddoli ystyrlon sy'n werthfawr ac sy'n cael ei gydnabod yn y gymuned fel cyfraniad defnyddiol. Mae oedolion ag anableddau dysgu'n wynebu llawer o wahaniaethu a stigma gydol eu bywydau, ac mae projectau megis Project Parc Porthceri'n gymorth o ran chwalu'r canfyddiadau negyddol hynny.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae cyfranogwyr yn ennill sgiliau fydd yn ddefnyddiol iddynt mewn sefyllfaoedd gwirfoddoli a chyflogaeth eraill ac yn eu bywydau bob dydd, megis y gallu i gydweithio'n dda, ymddwyn yn briodol gyda chyfoedion, dilyn cyfarwyddiadau a bod yn flaengar. Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi:

- Plannu dôl â blodau gwyllt
- Trwsio, glanhau a gosod bocsys ystlumod ac adar
- Plannu planhigion cors
- Cynnal a chadw gardd fwthyn y tu allan i fwthyn y
- gwarcheidwaid
- Codi sbwriel
- Cynnal a chadw llwybrau cerdded cyhoeddus
- Ail-beintio meinciau'r parc
- Glanhau'r arwyddion/rheiliau ar hyd y mynediad i'r parc
- Cael gwared â glasbrennau sycamorwydden oedd wedi Hadu

"Rydym oll yn gweithio fel tîm. Mae gan rhai pobl anabledd dysgu ac mae gan rai pobl broblemau iechyd meddwl, a does dim anabledd o gwbl ar rai pobl, ond does dim ots oherwydd mae pawb yn cydweithio i wneud y gwaith" [dyfyniad gan un o wirfoddolwyr y project]

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £28,059

Cyfanswm cost y project: £37,119

Rownd 1

# CYNGOR CYMUNED LLANDOCHAU

## ARDAL GEMAU AMIDDEFNYDD



### Adroddiad Cynnydd – aros I ddechrau

Mae'r project yn enghraifft o'r ffordd o gyflawni'r buddion mwyaf posibl drwy gyllid partneriaeth gan ddefnyddio A106, grant Cymunedau Cryf a chronfeydd y Cyngor Cymuned.

Cafwyd dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith a pharatowyd adroddiad dyfynbris drafft. Mae penawdau telerau hefyd wedi'u paratoi ac wrthi'n cael eu hystyried gan bob ochr. Rhagwelir y dechreuir ar y gwaith ar ddechrau'r flwyddyn newydd gyda'r AGADd newydd yn cael ei chwblhau yng ngwanwyn 2020.

### Amlinelliad o'r Project

Mae Cyngor Cymuned Llandochau'n gwneud cais am Ardal Gemau Amlddefnyddiwr i greu hyb ar gyfer gweithgareddau awyr agored a byddai'r lleoliad yn berffaith gyda chaeau chwarae y Brenin Siôr V. Bydd yr AGADd yn gwneud yn iawn am y lleiniau gwair mewn tywydd gwael gan ei fod yn cynnig lle i blant ac oedolion gyfrannu gydol y flwyddyn.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £44,634

Cyfanswm cost y project: £90,037

Rownd 3

# CANOLFEN GYMUNEDOL MURCHFIELD

## ADNEWYDDU



## Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Wedi'i gwblhau yn ystod yr haf eleni, mae'r project wedi cynnig cyfleusterau modern sydd wedi trawsnewid golwg y ganolfan. Mae'r project yn deillio'n uniongyrchol o arolygon defnyddwyr a nododd yn glir fod toiledau, llawr y neuadd a'r cyfleusterau gwres angen sylw. Mae'r costau rhedeg wedi lleihau yn sgil y gwaith plymio a gwresogi snewydd ydd wedi golygu bod y ganolfan yn gallu parhau i gynnnig ffioedd llogi rhesymol. Mae sylw yn y wasg am y gwelliannau a phobl yn rhannu'r neges wedi sicrhau bod y galw am y gofod cymunedol yn uwch nag erioed.

"Bellach mae gennym grwpiau newydd sy'n defnyddio'r neuadd yn ddiweddar, megis dosbarth adsefydlu cardiaidd ac mae'r galw am ddigwyddiadau mawr wedi cynyddu hefyd. Mae pobl yn meddwl ei fod yn edrych yn wych. Ni fyddem wedi gallu cyflawni'r gwelliannau hyn heb y grant ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr"

## Amlinelliad o'r Project

Mae'r toiledau a adeiladwyd yn y 1980au wedi'u hadnewyddu ac mae llawr newydd wedi'i osod yn y brif neuadd. Mae'r ganolfan yn neuadd amlddefnydd ar ochr ddeheuol Dinas Powys a dyma'r unig neuadd fawr/man y gellir ei logi yn y rhan hon o'r pentref, sy'n gwasanaethu mwy na 2000 o aelwydydd. Prif ddiben y ganolfan yw cynnig chwaraeon, ymarfer corff a digwyddiadau diwylliannol ar gyfer pobl o bob oedran. Mae'r llu o weithgareddau a gynhelir yma yn amrywio o Grŵp Rhiant a Phlentyn, , Taekwondo a dawnsio stryd i glwb prynhawn Mercher ar gyfer pobl hŷn a Chaffi'r Cof.

### CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £35,000

Cyfanswm cost y project: £39,222

Rownd 2

# CYNGOR CYMUNED PEN-LLIN

## MAE CHWARAE BLYNYDDOEDD CYNNAR



### Amlinelliad o'r Project

Y prosiect hwn yw trydydd cam gwelliannau i'r pentref, gan ddarparu ardal chwarae blynyddoedd cynnar yn y Parc. Bydd offer yn cael ei osod ar is-sylfaen a osodwyd o'r blaen. Mae'r ardaloedd chwarae yn fan cyfarfod defnyddiol a hygyrch iawn i rieni a gofalwyr, a allai fel arall gael eu hynysu yn eu cartrefi, neu ddibynnu ar drafnidiaeth bersonol i gael mynediad at gyfleoedd cymdeithasol i'w plant ifanc iawn y tu allan i bentref Ystradowen.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Ymunodd y Cyngor Cymuned â Chymdeithas Cymuned a Chwaraeon Ystradowen (CCChY) a Chyngor y Fro i weithredu cyfres o welliannau i bentrefi yn Ystradowen, yn dilyn ymarfer mapio cymunedol llwyddiannus. Dangosodd mapiau cymunedol CCChY fod ynysu yn broblem mewn aneddiadau noswylio fel Ystradowen sydd heb ganolbwyntiau fel siop, caffi, tafarn a llyfrgell. O ganlyniad i ymgynghori eang, cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu sydd wedi'i roi ar waith yn raddol. Roedd elfennau cynharach yn cynnwys rhandy newydd i'r neuadd bentref gyda band eang ffibr, sinema gymunedol, cwrt pétanque a gwelliannau i Barc Owain. Bydd y grant yn helpu i gwblhau'r pecyn o welliannau i'r pentref.

*"Mae ein prosiect cyffredinol wedi canolbwyntio ar adfywio'r Parc drwy roi mwy o resymau i ystod ehangach o drigolion dros ei ddefnyddio. Mae cwblhau'r man chwarae blynyddoedd cynnar yn rhan annatod bwysig o'r strategaeth hon"*

**CIPOLWG**

Cyfanswm y grant: £16,945

Cyfanswm cost y project: £23,395

Rownd 5

# NEUADD GYMUNEDOL EGLWYS LLANBEDR-Y-FRO

## ESTYNIAD I'R NEUADD



### Adroddiad Cynnydd - parhaus

Mae'r neuadd wedi'i lleoli wrth ymyl ardal chwarae i blant, ardal chwaraeon aml-ddefnydd newydd a chae pêl-droed gyda rheolwyr pob cyfleuster yn cysylltu â phwyllgor y neuadd i ddarparu gwasanaethau integredig. Mae'r neuadd yn ganolfan gymunedol hynod boblogaidd ac mae bron bob amser yn llawn i'w chapasiti. Mae angen llawer o le ychwanegol i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol.

*"Bydd y prosiect hwn yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein hased poblogaidd a ddefnyddir yn helaeth, sef 'Neuadd y Pentref'."*

### Amlinelliad o'r Project

Diben y prosiect yw estyn neuadd bentref Llanbedr-y-fro yn y cefn i ddarparu man storio ac ad-drefnu lle yn yr adeilad presennol i greu ystafell gyfarfod fach hunangynhwysol, ar wahân i'r brif neuadd a'r neuadd fach. Bydd goleuadau a gwres yn cael eu huwchraddio. Mae'r adeilad yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys grwpiau cymdeithasol, chwaraeon, dramâu, pantomeimau, sinema gymunedol ac mae ar gael i'w rhentu'n ehangach. Yn ogystal â dwy neuadd, toiledau a mannau storio, mae'r adeilad yn cynnwys ystafelloedd newid a ddefnyddir yn helaeth. Bydd y prosiect yn gwella effeithlonrwydd a photensial gosod y neuadd yn sylweddol.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £15,000

Cyfanswm cost y project: £40,154

Rownd 5

# CYMRU ADFEROL

## CYD-DDATBLYGU MODEL HYB PARTNERIAETH AML-ASIANTAETH ADFEROL I YSGOLION A THEULUOEDD



## Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Mae'r tîm wedi adeiladu perthnasau cryf cadarn â staff ysgolion lleol. Maen nhw'n cwrdd ac ymgysylltu â theuluoedd drwy ddigwyddiadau ysgol rheolaidd ac yn mynychu digwyddiadau hwyl i'r teulu ledled y Fro. Sefydlwyd Grŵp Llywio Adeiladau Pontydd amlasiantaeth o arweinwyr asiantaethau teuluoedd a thai lleol; rhieni, staff allweddol ysgolion a meithrinfeydd lleol ac o dîm GVS y Barri. Rhoddwyd hyfforddiant dulliau adferol llawn i:

- Grŵp Tadau Dechrau'n Deg (llun uchod)
- staff a rhieni ysgolion
- plant yng Ngholcot i fod yn gyfryngwyr cyfoedion
- hyfforddiant staff amlasiantaeth a hyfforddiant tîm FACT

*"Yr hyn sy'n arbennig ac yn unigryw am Adeiladu Pontydd yw bod aelodau o'r gymuned yn rhan hanfodol o bob penderfyniad ac wedi llywio cynnwys yr hyfforddiant, yn aelodau o'r grŵp Llywio, ac yn cael eu hymgynghori ar bob agwedd ar y project ar y ffordd..Mae'r grant wedi ein galluogi i ryddhau staff i roi sgiliau gwybodaeth i rieni a phlant fel y gallant ddeall yn well eu hanghenion eu hunain a safbwyntiau eraill. Mae'r cyllid wedi talu am ddatblygu ein model arferol o hyfforddiant adferol fel ei fod yn ddefnyddiol, yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb yn y Barri, yn aelodau o'r gymuned a staff ill dau".*

## Amlinelliad o'r Project

Mae Ysgol Gynradd Oakfield yn Gibbonsdown yn rhan fawr o'r gymuned ac eisoes wedi dechrau ar y daith i fod yn ysgol adferol gan ddefnyddio Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ran adeiladau, cynnal a chadw a gwella perthnasau â disgyblion a staff. Mae ymdeimlad cryf o gymuned a chryfderau, gyda rhaglenni a gwasanaethau rhagorol yn y gymuned, ac awydd i gyfrannu a gwneud newid cadarnhaol i wella lles. Cyd-ddatblygu model hyb partneriaeth aml-asiantaeth adferol i ysgolion a theuluoedd y Fro. Byddant yn galluogi ac yn cydlynu gwaith cyflawni cydweithredol adferol amlasiantaeth effeithiol gyda'r ysgol/ion fel hyb, ac mae aelodau cymunedol hyfforddedig yn sylfaen asedau hollbwysig.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £22,879

Cyfanswm cost y project: £45,770

Rownd 1

# SINEMA GYMUNEDOL Y RHWS

## PRYNU OFFER AR GYFER Y SINEMA GYMUNEDOL



### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Bellach, mae'r Neuadd yn dangos ffilm bob mis ar nos Sadwrn ac yn aml bydd rhwng 50 a 100 yn mynychu, gyda grŵp craidd o bobl sy'n mynd yn aml. Mae'r costau'n isel i bobl sy'n mynychu gyda ffrwd incwm ychwanegol yn dod o'r lluniaeth a weinir yn ystod yr egwyl gan wirfoddolwyr. Ceir adborth positif yn rheolaidd ar dudalen Facebook y grŵp gan bobl sy'n cyflwyno sylwadau ar yr adnodd ffantastig a'r cyfle y
mae'r sinema yn ei gynnig i gwrdd â hen ffrindiau. Mae'r grwp sinema wedi gallu cefnogi grwpiau lleol eraill, megis CRhA yr ysgol gynradd, i godi arian drwy sicrhau bod yr offer ar gael iddyn nhw a thrwy gyfrannu at y costau sgrinio.

"Gallwn ddefnyddio'r offer i ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl leol. Mae gennym gynlluniau i ddangos ffilmiau sy'n addas i bobl â demensia. Mae gan y project fuddion ehangach i'r neuadd bentref hefyd gan fod yr offer yn golygu bod rhagor o ddefnyddwyr, a defnyddwyr gwahanol, yn dod i'r neuadd."

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r clwb wedi gallu prynu eu hoffer sinema eu hunain. Roedd y sinema gymunedol hon, yn neuadd gymunedol Stewart Road, yn gorfod dibynnu ar fenthyg offer am gyfnod hir. Galluogodd y project hwn y grwp i brynu eu hoffer eu hunain, a wnaeth wahaniaeth mawr oherwydd nawr maent yn gallu cynllunio eu rhaglen ymlaen llaw â mwy o sicrwydd ac nid oes rhaid iddynt dreulio amser yn cludo offer drud.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £10,974

Cyfanswm cost y project: £10,974

Rownd 1

# CLUB BOWLIO ROMILLY

## ADNEWYDDU ADEILAD Y CLWB




### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Bydd y grant yn darparu ffenestri a drysau newydd, lloriau amlbwrpas, gwres canolog, atgyweiriadau i'r nenfwd a gwaith plastro yn ogystal â goleuadau ynni-effeithlon. Bydd hyn yn galluogi'r clwb i logi ei gyfleusterau i gynhyrchu incwm. Yn ogystal â'r Bowls, mae gan y grŵp ddyheadau i'r clwb ddod yn ganolfan gymunedol gydol y flwyddyn, gan gynnig llu o weithgareddau a digwyddiadau. Mae arwyddion cynnar o alw mawr am ddefnyddio'r gofod gyda 2 glwb chwist (cardiau), 3 hyfforddwr ioga yn cynnig dosbarthiadau yn ogystal â thylino babanod a sesiynau wythnosol gyda chleientiaid Vale Plus.

*Diweddariad 2022: "Gallaf gadarnhau bod y prosiect wedi'i gwblhau a bod aelodau'r clwb yn falch iawn o'r canlyniad. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn eto i ddiolch i Gyngor Bro Morgannwg a'r tîm Cymunedau Cryfach yn arbennig am eich cymorth. Mae'n sicr wedi helpu i ddenu a chynnal cyfranogiad y gymuned yn y lleoliad."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r clwb wedi llwyddo i brynu ei offer sinema ei hun. Roedd y sinema gymunedol, a leolir yn neuadd gymunedol Stewart Road, wedi bod yn gyfyngedig ers peth amser oherwydd defnyddio offer a fenthycwyd. Oherwydd y prosiect hwn, roedd modd i'r grŵp brynu ei offer ei hun sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr gan y gall bellach gynllunio ei raglen gyda sicrwydd ac osgoi cludo offer sy'n cymryd llawer o amser ac sy'n gostus.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £24,485

Cyfanswm cost y project: £24,485

Rownd 5

# Y CLWB RHYNGSYNHWYRAIDD

## CLWB BEICIO ADDASOL Y FRO



### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Mae'r clwb wedi llwyddo i brynu Beic Tandem Cadair Olwyn Deuol Trydanol, Beic Tandem Ochr yn Ochr Trydanol a Threic Bwled Tomcat a gwefan. Mae'r pwrcasiadau hyn wedi galluogi'r clwb i ehangu'r cyfleoedd beicio a gynigia i'r buddiolwyr yn ogystal â helpu i hyrwyddo'r gweithgareddau y maen nhw'n eu cynnig. Mae hyn wedi cael effaith arbennig o gadarnhaol ar gyfranogiad. Mae'r clwb eisoes wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y bobl anabl a'u gofalwyr/teuluoedd sy'n defnyddio'r gweithgareddau beicio yn y Fro. Bydd yr offer a'r wefan newydd hefyd yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y clwb yn y tymor hwy drwy ddenu aelodau newydd ac ariannu rhoddion a fydd yn cynyddu cyfranogiad ac yn ei dro gwella safon y gweithgareddau a gynigiwn.

*"Rydym wedi denu dros 50 o fuddiolwyr y tymor hwn, gan amrywio o bobl ifanc i bobl hŷn mewn darpariaethau gofal - y nad yw rhai ohonynt wedi beicio ers dros 20 mlynedd. Maen nhw a'u gofalwyr wedi cael budd enfawr gan gynnwys mwy o ryngweithio cymdeithasol yn ogystal ag iechyd a lles gwell. Dywedodd rhai taw dyma'r pnawn gorau iddynt ei gael ers blynyddoedd."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r clwb wedi nodi angen i gael gwefan a thri beic arbenigol arall i fodloni anghenion y nifer uwch o fuddiolwyr ynghyd â'u gofalwyr. Y beiciau sydd eu hangen arnynt yw: Beic Tandem Cadair Olwyn Deuol Trydanol, Beic Tandem Ochr yn Ochr Trydanol a Threic Bwled Anghenion Arbennig Tomcat.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £17,520

Cyfanswm cost y project: £17,520

Rownd 4

# LLYFRGELL GYMUNEDOL GWENFÔ

## LLYFRGELL A HYB CYMUNEDOL



### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Ar hyn o bryd, mae'r llyfrgell gymunedol yn gweithredu mewn adeilad anghynaladwy ac aneconomaidd 50 mlwydd oed, a adeiladwyd yn wreiddiol fel ystafell ddosbarth dros dro. Diben y prosiect hwn yw creu llyfrgell a chanolfan gymunedol newydd yng Ngwenfô ar gyfer grwpiau a busnesau yn yr ardal. Er mwyn goroesi, rhaid i'r llyfrgell gynhyrchu incwm a bydd cyfleuster newydd a all ddarparu ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddwyr yn helpu i gyflawni hyn.

Diweddariad 2022: Defnyddiwyd grant Cymunedau Cryf i Gyngor Cymuned Gwenfô, ynghyd ag arian Adran 106, i amnewid llyfrgell Gwenfô oedd yn 60 oed am adeilad modern, a drosglwyddwyd i'r Llyfrgell Gymunedol ym mis Hydref 2021. Mae'r lle ychwanegol wedi galligu's Llyfrgell i gynnal gweithgareddau ychwanegol drwy grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ystafell TG, sydd bellach yn weithredol, ac ardal goffi. Rydym eisoes wedi ychwanegu 6 gwirfoddolwr newydd i'n staff ac mae nifer o weithgareddau wedi'u trefnu i gynnwys y trigolion hŷn yng Ngwenfô yn ogystal â'r aelodau iau.

### Amlinelliad o'r Project

Profwyd cynigion cychwynnol i integreiddio'r llyfrgell newydd â'r ganolfan gymunedol bresennol yn rhy ddrud i'r gyllideb sydd ar gael. Bydd yr ateb terfynol yn darparu adeilad llyfrgell annibynnol newydd gyda'r potensial i gysylltu â'r ganolfan gymunedol yn y dyfodol. Bydd y grant yn cyfrannu'n ariannol at waith cyfalaf i drawsnewid cyfleusterau cymunedol yng Ngwenfô. Bydd y llyfrgell newydd yn darparu gofod hyblyg modern sy'n addas ar gyfer ystod eang o weithgareddau dysgu a chymdeithasol. Datblygwyd y prosiect fel ymateb i waith mapio cymunedol a dynnodd sylw at flaenoriaethau lleol. Y diben oedd cynnal cydlyniant cymunedol yn wyneb pentref a estynnwyd yn helaeth; gyda dau ddatblygiad tai newydd â 400 o dai yn cael eu hadeiladu ar berimedr pentref Gwenfô yn cynyddu'r boblogaeth tua 50%.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £40,000

Cyfanswm cost y project: £230,000

Rownd 5

# YMCA

## REPLACE BOILERS AT THE YMCA



### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Ar gyfartaledd bydd 2,500 o bobl yn dod i YMCA y Barri i fanteisio ar yr ystod eang o wasanaethau sydd ar gael.  Mae buddsoddi mewn gwasanaethau sylfaenol fel gwres a dŵr poeth wedi sicrhau y gall y sefydliad  fod yn hyderus yn ei allu i barhau i gynnal gweithgareddau a gwasanaethau i bobl y Barri. Yn eu plith mae addysg arbenigol, cynhwysiant cymdeithasol, gwirfoddoli a chymorth, gymnasteg, cyfryngau digidol, darlledu radio cymunedol, ffilm i ofalwyr ifanc, caffi cymunedol, dawnsio cymunedol, Major Music, gwasanaethau gofal dydd a hefyd mae ystafelloedd swyddfa a ffisiotherapi/iechyd galwedigaethol i elusennau eraill.

### Amlinelliad o'r Project

Mae angen i'r YMCA brynu boeleri eraill - mae'r ganolfan yn dibynnu ar effeithlonrwydd y boeleri sydd yno i roi gwres a dŵr poeth i aelodau, partneriaid a'r cyhoedd. Mae'r boeleri wedi'u cynnal a'u hatgyweirio'n dda ers eu gosod ond mae'r peirianwyr gwresogi wedi dweud nad oes modd trwsio 3 o'r 6 ac nad yw'r tri sy'n gweithio am bara fawr hirach.  Mae nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth yn dioddef anableddau dysgu a chorfforol amrywiol ac yn dibynnu ar eu gofal dydd yn yr YMCA, heb wres a dŵr poeth byddai'n rhaid dod â'r gwasanaeth i ben.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £27,443

Cyfanswm cost y project: £27,443

Rownd 2

# EGLWYS ALL SAINTS SOUTHERNDOWN

## GARDD GYMUNEDOL





### Amlinelliad o'r Project

Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i lunio gardd hygyrch heb llawer o waith cynnal a chadw arni unrhyw un sy'n defnyddio'r neuadd. Yr adeilad yw'r unig man cwrdd i sefydliadau a phreswylwyr yr ardal, ac ers iddo gael ei addasu ar gyfer defnydd cymunedol yn 2008, mae'n cael ei ddefnyddio gan y ddau grŵp fel lleoliad cymunedol. Mae'r project wedi trawsnewid darn o dir gwag oedd wedi gordyfu yn fan awyr agored deniadol.

### Adroddiad Cynnydd – cwblhawyd

Cwblhwyd y project o fewn y gyllideb ym mis Mehefin 2018 a nododd y grwp bod yr ardd yn cael ei defnyddio bob dydd yn ystod yr haf. Mae'r buddsoddiad wedi eu galluogi i wneud llawer mwy ac wedi gwneud yr eiddo'n fwy deniadol i ddefnyddwyr posibl. Gan fod yr ardal awyr agored yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn, gall pob aelod o'r gymuned ei defnyddio. Mantais arall yw bod modd gwylio gemau criced a gynhelir yn rheolaidd yng nghlwb criced Southerndown gerllaw oddi yno.

"Rydyn ni, aelodau'r eglwys a'r gymuned, yn falch iawn o'r cyfleuster newydd. Mae yng nghanol y pentref ac mae naws wych yno. Mae'n gwbl addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae'r cerrig hyd yn oed yn addas i gadeiriau olwyn. Gall y gymuned hefyd fwynhau gwylio'r campau ar y cae criced o'r ardd gan ei bod yn edrych dros y cae. Rydym wrth ein bodd!"

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £2,495

Cyfanswm cost y project: £3,495

Rownd 1

# CLWB PÊL-DROED BARRY ATHLETIC

## LLAWR NEWYDD I'R PRIF BAFILIWN




### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r clwb wedi gweld rhywfaint o oedi ac mae'r project am ddechrau ym mis Tachwedd 2019.

*"Bu'r clwb wrthi'n ddiflino ac yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid am do newydd, gwres, cyfleusterau cegin a thoiled. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i'r llawr newydd a fydd yn cwblhau'r rhaglen waith y credwn fod ei hangen i ddenu defnyddwyr newydd yn ystod yr wythnos a gyda'r nos a chadw defnyddwyr presennol. Cafwyd ymgynghoriad helaeth dros gyfnod o ddwy flynedd ac mae'r rhaglen waith yn mynd rhagddi mewn ymateb i ganlyniad yr ymgynghoriad."*

### Amlinelliad o'r Project

Nod y project yw helpu gwaith adfywio parhaus yn y Barri drwy adnewyddu cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar dir rhydd-ddeiliadaeth sydd ym meddiant Clwb Athletau'r Barri. Mae'r clwb yn cynnwys grwpiau pêl-droed, criced, bowliau, tennis, band pres rhedeg a chyn-filwyr. Mae'r cais yn ymwneud â'r prif bafiliwn a ddefnyddir yn bennaf ar y penwythnos gan yr adran bêl-droed yn y gaeaf a'r adran griced yn yr haf. Mae angen cyllid i osod lloriau diogel newydd yng nghyntedd y fynedfa, y brif neuadd, bar, selar, ystafell boeler a'r gegin. Mae cyflwr gwael y lloriau'n bryder iechyd a diogelwch.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £4,896

Cyfanswm cost y project: £4,896

Rownd 4

# GRŴP CADWRAETH TREGATWG

## GWEFAN AC OFFER GARDDIO



### Amlinelliad o'r Project

Mae'r grŵp wir angen gwefan broffesiynol i greu ymwybyddiaeth o'u grŵp. Mae nhw hefyd angen offer i gynnal a gwella Little Hill Green.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae cael gwefan wedi golygu y gall pobl â diddordeb mewn cadwraeth ddod o hyd i'r grŵp - unrhyw bryd, unrhyw le. Mae'n galluogi pobl i gyrraedd rhoddwyr posibl gyda mwy o gywirdeb a dibynadwyedd. Mae'r grant wedi rhoi offer sylfaenol sy'n golygu y gall y grŵp fynd i'r afael â'r perthi sydd angen eu tocio a'r gwelyau blodau gwyllt sydd angen eu cynnal a'u cadw'n gyson.

*"Gyda chymorth Cyngor Bro Morgannwg, y Loteri Genedlaethol a grŵp brwd o wirfoddolwyr rydym wedi gallu adfer y mannau gwyrdd yn ein hardal, gan eu gwneud ar gael ar ddefnydd y gymuned. Fel mater o ddiddordeb … enillodd un o'n casglwyr sbwriel, Harrison Baker, 6 oed, wobr Person Ifanc y Flwyddyn Bro Radio yn eu seremoni ddiweddar."*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £1,554

Cyfanswm cost y project: £1,554

Rownd 3

# CANOLFAN GYMUNEDOL CASTLELAND

## SYSTEM FWCIO HYBLYG A CHALEDWEDD



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r ganolfan brysur yn addas ar gyfer clybiau sy'n cynnig gwasanaethau hanfodol i'r rhan hon o'r Barri. Gall yr hyfforddiant helpu aelodau o'r gymuned i gael mynediad at swyddi, ac mae'r grwpiau cymdeithasol yn gwella ansawdd bywyd a chynhwysiant yn yr ardal lle nad yw gweithgareddau o'r fath ar gael ac yn fforddiadwy bob tro. Mae'r ganolfan wedi treulio amser yn ymgorffori'r feddalwedd newydd a'r system archebu ar eu gwefan, ac mae'r staff wedi bod yn ymgyfarwyddo â'r feddalwedd hefyd.

*"Bydd y feddalwedd yn amhrisiadwy o ran neilltuo amser i ganolbwyntio ar brojectau mwy cymunedol a threulio amser yn rhwydweithio a helpu grwpiau eraill neu grwpiau arfaethedig yn y Ganolfan".*

### Amlinelliad o'r Project

Cyflwyno system archebu hyblyg iawn, a chaffael y caledwedd oedd ei angen i gefnogi'r galw cynyddol ar y Ganolfan gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, yn ogystal â chyflwyno rhaglen hyfforddi ar ar wirfoddolwyr. Bellach, mae 16 o grwpiau'n defnyddio'r ganolfan yn rheolaidd bob wythnos, o'i gymharu â 12 yn 2017. Mae'r ganolfan yn cynnig cyfleusterau ar gyfer amrywiaeth o grwpiau a defnyddiau fel grwpiau plant bach, hyfforddiant TG, hyfforddiant cyflogaeth, gwasanaethau cwsnela a sefydliadau anabledd yn ogystal â grwpiau ffitrwydd unigol a grwpiau hamdden.


CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £3,522

Cyfanswm cost y project: £3,896

Rownd 2

# CANOLFAN GWYLWYR Y LANNAU TRWYN NELL



## GWELLIANNAU I WRESOGI

### Amlinelliad o'r Project

Bydd y prosiect yn darparu gwresogyddion modern ynni-effeithlon a fydd yn lleihau costau rhedeg yn sylweddol ac felly hefyd yr ôl troed carbon, gan wneud yr orsaf yn fwy hunangynhaliol. Yn ogystal, bydd yn cynnal cysur ceidwaid gwylio ac ymwelwyr, gan wella effeithiolrwydd y ceidwaid gwylio a gwella profiad yr ymwelwyr. Ceir tua 250 o ymwelwyr y flwyddyn - cymysgedd o grwpiau cymunedol ac ymwelwyr galw heibio. Mae hyrwyddo neges gadarnhaol a throsglwyddo gwybodaeth am ddiogelwch bywyd ar y môr i'r gymuned ehangach yn agwedd bwysig ar waith y sefydliad. Bydd amgylchedd mwy cyfforddus yn denu mwy o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y misoedd oerach, gan godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth pwysig hwn yn ehangach ac annog mwy o roddion.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae Sefydliad Cenedlaethol Gwylwyr y Glannau yn edrych ar hyd yr arfordir a'r arfordir cyfagos am unrhyw bobl sydd mewn trafferthion ac yn codi'r larwm i Wylwyr y Glannau sydd wedyn yn trefnu ymdrechion achub. Agorodd yr orsaf yn Nhrwyn Nell, y Barri yn 2007 ac mae ganddi 50 o geidwaid gwylio gwirfoddol sy'n cadw golwg yn ystod oriau golau dydd bob dydd o'r flwyddyn. Dros y 3 blynedd hyd at 2020 mae'r grŵp wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol ag achub 71 o bobl ac mae wedi helpu gyda llawer mwy.

*"Gan ein bod yn gysylltiedig yn agos â'r môr a'r amgylchedd, rydym yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd byd-eang a'n nod yw cyfrannu at gymdeithas carbon isel drwy ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn effeithlon."*

### CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £1,931.98

Cyfanswm cost y project: £2,231.98

Rownd 5

# GRŴP SGOWTIAID DINAS POWYS

## ESTYNIAD I NEUADD Y SGOWTIAID



### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Dechreuodd y gwaith o godi'r estyniad i'r Neuadd Sgowtiaid ar amser a dylai gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2019. Nid yw'r llawn botensial wedi'i wireddu eto, ac unwaith caiff y gwaith ei gwblhau bydd yn llawer mwy gweladwy. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn cefnogi sefydliadau dielw yn y gymuned sy'n cynnwys y Sgowtiaid, Sgowtiaid bach a phaciau Afancod, aeth 20 i'r Geidiau, 70 i'r clwb Bridge lleol, 15 i'r grŵp Babanod a Phlant Bach, 20 i'r dosbarthiadau Ioga ac mae cyfarfodydd cymunedol ychwanegol yn cael eu cynnal.

*"Rydym eisoes wedi cael diddordeb gan sefydliadau masnachol i gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant gan eu bod yn gwybod am y gwaith i wella'r cyfleusterau sydd ar gael. Ar ôl eu cwblhau byddwn yn hyrwyddo ac yn annog grwpiau defnyddwyr eraill gyda'r nod o wneud ein grŵp yn un hunangynhaliol at y dyfodol."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r estyniad o 1975 yn adeiledd a ragwnaed sy'n colli llawer o ynni a godwyd fel ateb byrdymor i ddiffyg lle storio. Mae'r ardal storio'n gollwng ac mae angen ei dymchwel a'i hail-godi gydag ardaloedd storio mawr eu hangen ac ardal gyfarfod lai ar wahân i ddefnyddwyr hen a newydd. Cafwyd caniatâd cynllunio ynghyd â grant gan yr RCDF yn Nhachwedd 2018. Ers hynny, gyda'r arian ychwanegol a godwyd a grantiau gan ffynonellau eraill uwchraddiwyd y gegin a dechreuwyd gwaith ar y tai bach i bobl anabl a'r ramp. Mae bellach angen mwy o gyllid ar gyfer yr estyniad i lenwi'r diffyg yn y grant a rhoi'r cyfleusterau angenrheidiol yn yr estyniad newydd.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £10,000

Cyfanswm cost y project: £135,505

Rownd 4

# ADDYSG YN Y CARTREF Y BARRI

## CYMORTH I ADDYSGWYR CARTREF




### Amlinelliad o’r Project

Bydd y grant yn helpu'r grŵp drwy ddarparu teganau ac adnoddau addysgol fel celf, crefftau a llyfrau a’i helpu i brynu gliniadur/cyfrifiadur llechen ac i allu cynnig sesiynau arbennig gan ddarparwyr y tu allan i Addysg yn y Cartref y Barri. Bydd ffi aelodaeth fisol yn sicrhau ffynhonnell incwm ddibynadwy ac yn talu cost rhentu neuaddau a disodli adnoddau dros amser.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae Addysg yn y Cartref y Barri yn lle i deuluoedd sy'n addysgu gartref gyfarfod, dysgu, chwarae, cymdeithasu a chael cymorth a chefnogaeth. Mae Addysg yn y Cartref y Barri yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr a rhieni sy'n addysgu plant rhwng 0 - 18 oed yn y cartref. Daw teuluoedd yn bennaf o'r Barri a'r cyffiniau ym Mro Morgannwg.

*"Gydag addysg yn y cartref yn dod yn ddewis poblogaidd i deuluoedd, mae'n bwysig iawn bod gan y gymuned le diogel y gellir ymddiried ynddo i gyfarfod. Mae'n bwysig gallu gweithio gyda'n gilydd fel cymuned i helpu pob aelod waeth beth fo'i resymau dros ddewis addysgu gartref."*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £1,440

Cyfanswm cost y project: £2,820

Rownd 5

# NEUADD BENTREF LLANSANNOR

## GOLEUO AC OFFER CLYWELEDOL



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae disodli'r system oleuadau fflwroleuol ardal benodol aneffeithlon â goleuadau modern effeithlon wedi golygu y gall y neuadd gynnig awyrgylch sy'n addas at ystod o ddigwyddiadau cymdeithasol a busnes. Wedi'i gyfuno â chyfleusterau sain newydd mae'r gwelliannau'n golygu y gall defnyddwyr presennol ac o bosibl defnyddwyr cymdeithasol a masnachol hanfodol newydd gael budd o system glyweledol a sain o safon yn y neuadd ar gyfer cyflwyniadau, cerdd a drama, cyngherddau ac i'w defnyddio mewn digwyddiadau cymdeithasol a chwaraeon fel nosweithiau sgitls, chwist ac ati. Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr i allu'r neuadd i godi incwm, gan sicrhau ei hyfywedd yn y dyfodol.

### Amlinelliad o'r Project

Rhydd y neuadd yr unig fan cyfarfod i'r gymuned i drigolion y gymuned wledig fechan hon yn y Fro i ymgasglu ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol cymdeithasol. Caiff ei hunan-ariannu ac mae'n dibynnu'n llwyr ar yr incwm y mae'n ei godi o'r costau llogi a digwyddiadau codi arian cymunedol. Hoffai'r grŵp wella'r cyfleusterau goleuo/clyweledol ac effeithlonrwydd ynni yn y neuadd i sicrhau ei fod yn aros yn gyfleusterau deniadol a hyfyw i'r gymuned gyda dyfodol cynaliadwy.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £7,131

Cyfanswm cost y project: £9,430

Rownd 3

# CLWB TENIS LLANILLTUD FAWR

## FFENSYS, GATIAU A PHYST



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r clwb wedi llwyddo i brynu a gosod gatiau a ffensys newydd ac wedi'u huwchraddio a ffensys o amgylch y pedwar cwrt tennis. Mae'r cyrtiau hyn yn cael eu diogelu'n llawn gyda'r peryglon baglu a'r ffensys rhydd yn cael eu gwaredu. Mae'r ffensys newydd hefyd yn gweithio i atal mynediad i bobl heb awdurdod, sy'n sicrhau bod yr ardal yn rhoi amgylchedd diogel i aelodau a'r cyhoedd. Mae'r clwb wedi gallu ehangu ei aelodaeth a chyrraedd y nod o roi cynnig hamdden hollgynhwysol drwy groesawu plant a grwpiau anabl gyda mynediad diogel i'r cyrtiau. Mae Vale Plus bellach yn mynychu'r sesiynau bob pythefnos yn y cyrtiau. Mae'r ffensys newydd trawsnewid apêl esthetig y cyrtiau, gan wneud iddynt edrych yn fwy proffesiynol ac yn daclusach, sydd wedi arwain at aelodaeth uwch.

*"Bydd gosod y ffens gobeithio yn parhau i ddenu aelodau newydd. Gan fod y ffensys bellach wedi'u cwblhau gall y Clwb Tennis ddechrau codi arian i'w project nesaf sef gosod goleuadau dros y cyrtiau gan wneud y cyrtiau ar gael ddydd a nos. Mae cwblhau'r ffensys yn galluogi i brojectau'r dyfodol gael eu datblygu."*

### Amlinelliad o'r Project

Yn ddiweddar mae'r llysoedd wedi cael arwyneb newydd yn dilyn cais llwyddiannus i RCDF i ail-ddatblygu'r cyfleusterau chwaraeon ar y Tir Hamdden. Fodd bynnag, un canlyniad o hyn yw nad oes modd gosod y ffensys ar yr arwyneb newydd gan achosi nifer o broblemau.

Byddai ffensys, pyst a gatiau newydd o gwmpas tair ochr y Cyrtiau Tennis yn datrys y materion hyn gan hefyd sicrhau amgylchedd diogel i aelodau tennis a'r cyhoedd i chwarae yn ogystal â bod yn safle diogel i atal difrod a fandaliaeth ar y cyrtiau tennis ag arwyneb newydd arnynt.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £4,687.50

Cyfanswm cost y project: £6,250

Rownd 4

# NEUADD GYMUNEDOL PENARTH ISAF

## GWELL SYSTEM WRES



### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae'r system wres wreiddiol sy'n gwasanaethu'r Neuadd Gymunedol yn aneffeithlon ac yn hen ffasiwn ac nid yw'n addas at y diben mwyach. Gyda 200 o bobl yn defnyddio'r Ganolfan yr wythnos, yr ofn realistig, heb fuddsoddiad, fyddai bod grwpiau defnyddwyr yn canslo llogi ystafelloedd, gan arwain at Ganolfan Gymunedol anghynaladwy. Mae'r gweithgareddau a'r grwpiau rheolaidd presennol yn cynnwys: Rhieni a Phlant Bach; Yr Enfysau a'r Brownis; Cylch-hyfforddi; Ioga; Clwb Coffi; Ymarfer Dawns Preifat "Strictly Come Dancing Style"; Pilates ac yn fwy diweddar Dosbarthiadau Hyfforddi Cŵn. Ar hyn o bryd, mae ystod oedran eang o bobl yn elwa ar leoliad gwych yn agos at eu cartrefi. Byddai dod o hyd i safleoedd eraill yn agos i'w cartrefi yn heriol i lawer o'r defnyddwyr presennol. I'r ganolfan, byddai colli grwpiau defnyddwyr lleol yn golygu colli swm enfawr o incwm. Gallai'r llu o wirfoddolwyr sydd wedi'u lleoli yn y ganolfan hefyd gael eu colli i'r gymuned leol.

*"Mae gan y Ganolfan logwyr a ymwelodd â hi fel plentyn i fynychu'r cenawon a'r sgowtiaid neu'r enfysau a'r brownis, neu bartïon, ac sydd bellach naill ai'n anfon eu plant i un o'r grwpiau hynny, neu sy'n llogi'r Ganolfan ar gyfer digwyddiadau teuluol neu ar gyfer grwpiau eu bod wedi eu sefydlu eu hun. Ein nod, gyda'r prosiect hwn, yw sicrhau y bydd y Ganolfan nid yn unig yno, ond y bydd yno mewn cyflwr da i'w hwyrion ymweld â hi a'i defnyddio."*

### Amlinelliad o'r Project

Bydd y grant yn darparu thermostat amledd radio rhaglenadwy a rheiddiaduron newydd a byddai'r ddau ohonynt yn arwain at system wres fwy diogel a mwy effeithlon ac arbedion cost mawr. Mae pwyllgor y Neuadd eisoes wedi prynu diffibriliwr a bydd y grant hefyd yn helpu tuag at gost uned storio y gellir ei chloi ar gyfer hyn.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £3,891.51

Cyfanswm cost y project: £3,891.51

Rownd 5

# MOTION CONTROL



## Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Hyd yma, mae'r project Meaningful Movement wedi cyflawni'r canlyniadau cadarnhaol canlynol:

- Rhaglen seiliedig ar symudedd newydd a ddatblygwyd i oedolion a'r genhedlaeth hŷn yn yr ardal.
- Dau gartref gofal wedi'u cadw bob pythefnos ar ôl y project peilot i barhau â sesiynau
- 10 rhanddeiliad yn rhan o'r project peilot (cartrefi gofal, asiantaethau lleol)
- cyflawnwyd sesiynau blasu mewn grwpiau Heneiddio'n Dda gwahanol ym Mhenarth a Thresimwn mewn symud creadigol a Tai Chi
- 54 sesiwn mewn 6 chartref gofal dros gyfnod y project peilot!
- 97 o unigolion yn rhan o'r project dawns hyd yma!
- 85% o gyfranogwyr yn dangos ymateb cadarnhaol mewn cysylltiad â thiwtoriaid, staff a phreswylwyr eraill. Dangosodd 75% o'r cyfranogwyr welliant bach mewn symudedd dros y cyfnod peilot. 90% o gyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n hapusach ac yn iachach o ran ein sesiynau dawns. 2 aelod rhan amser wedi'u cyflogi'n llawrydd.

## PROJECT PEILOT MEANINGFUL MOTION

### Amlinelliad o'r Project

Hoffai Motion Control Dance dreialu project newydd o'r enw 'Meaningful Motion' i'r sawl sy'n byw yn y Fro gydag anawsterau meddwl a chorfforol fel clefyd Alzheimer, Demensia, clefyd Parkinson, canser, arthritis ac ati. Drwy sesiynau egnïol, ysbrydoledig a hwyl, gall dawns wella'r cof, yn gorfforol ac yn emosiynol, emosiynau, tymer, help gyda chydbwysedd, dirywiad sy'n gysylltiedig ag oedran ac yn gyffredinol wella bywydau pobl.

### CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £4,799

Cyfanswm cost y project: £4,799

Rownd 3

# NEUADD BENTREF ABEROGWR

## CEGIN NEUADD Y PENTREF






### Amlinelliad o'r Project

Hoffai'r grŵp ychwanegu gegin a'r holl osodiadau i Neuadd y Pentref, sy'n cael ei adeiladu. Ceisir Grant Cymunedau Cryf at ddarparu cegin, rhan hanfodol o alluogi'r neuadd i roi gwasanaethau arlwyo a chreu incwm.

Bydd y neuadd bentref hirddisgwyliedig i Aberogwr ar safle'r tai bach segur. Bydd yr adeilad newydd yn rhoi gwasanaethau angenrheidiol i'r gymuned leol - gyda'r bonws ychwanegol o olygfeydd rhyfeddol dros Fôr Hafren

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £6,000

Cyfanswm cost y project: £584,000

Rownd 3

### Adroddiad Cynnydd – parhaus

Mae'r project yn benllanw ymdrechion y gymuned dros sawl blynedd. Bydd cyllid gan Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, Adran 106 a Chronfa Cymunedau Cryf y Fro, ynghyd â chodi arian yn lleol yn arwain at greu hyb cymunedol i Aberogwr.  Mae'r pecyn ariannu bellach yn ei le, mae prydlesi wedi'u llofnodi a dylai'r bloc tai bach gael ei ddymchwel erbyn diwedd y flwyddyn.

# PUKKA PRODUCTIONS

## DYLUNIO AC ADEILADU'R WEFAN NEWYDD



### Amlinelliad o'r Project

Byddai'r grŵp yn debygol o ail-ddylunio'n ac ail-adeiladu'n llwyr wefan newydd a fydd yn adlewyrchu'r holl grwpiau a gwasanaethau a rydd PUKKA. Bydd gliniadur newydd, graffeg cerbydau, ymgyrch farchnata a hyfforddiant yn gwblhau'r pecyn sydd ei angen i wella amlygrwydd y grŵp yn y gymuned.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £3,600

Cyfanswm cost y project: £4,900

Rownd 2

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r grŵp yn cynnal Ysgol Theatr i Blant 3-16 oed sy'n cynnal cynyrchiadau theatrig mewn lleoliadau ledled y Fro i godi arian i elusennau a theuluoedd mewn angen. Golygai'r grant y gallai'r sefydliad fforddio adeiladu gwefan broffesiynol a chyfoes yr olwg a phresenoldeb ar-lein gan ei helpu i ehangu a chyrraedd mwy o bobl.Mae codi ymwybyddiaeth yn helpu i annog mwy o gyfranogiad cymunedol ym meysydd theatr, drama a cherdd a chreu mwy o gyfleoedd o ran cyflogaeth â thâl, hyfforddiant ac opsiynau gwirfoddol.

*"Ers y project y wefan a'r ymgyrchoedd marchnata mae 6 phlentyn ychwanegol yn yr ysgol theatr sy'n creu incwm misol ychwanegol … sydd wedi ein galluogi i gyflogi aelod arall o staff. Mae cyfuniad o ymgyrchoedd e-bost, hyrwyddo gwefan a chyfryngau cymdeithasol wedi cyfuno ac effeithio ar amlygrwydd a chyrraedd Pukka".*

# NEUADD GYMUNEDOL Y RHWS

## FFENESTRI NEWYDD



### Amlinelliad o'r Project

Newid ffenestri yn y neuadd fach, y swyddfa a'r ystafell bwyllgor. Roedd angen newid y ffenestri oherwydd eu hoedran, aneffeithlonrwydd a'r ffaith eu bod yn broblem o ran diogelwch. Nid yn unig y mae'r ffenestri newydd yn edrych yn dda, dylent helpu i leihau biliau tanwydd a gwneud yr adeilad yn fwy deniadol i ddefnyddwyr.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £5,250

Cyfanswm cost y project: £5,250

Rownd 2

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Cafodd 13 o ffenestri newydd eu gosod yn llwyddiannus yn y neuadd gymunedol ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018. Mae'r grŵp wrth ei fodd gyda'i ased newydd. Mae gan y ffenestri newydd system gloi farw-folltau yn ogystal â gwarant deng mlynedd a bydd yn gwella diogelwch y neuadd. Byddant hefyd yn gwella amodau yn y neuadd a fydd yn ei dro yn annog mwy o bobl i fynychu gweithgareddau fel sesiynau ymarfer corff. Mae'r sesiynau hyn yn hanfodol wrth gyfrannu tuag at ffrwd incwm y neuadd yn y dyfodol.

# FESTRI SARON

## RENOVATION OF VESTRY



### Amlinelliad o'r Project

Y project yw adnewyddu festri Capel Saron a chreu ased cymunedol newydd i bentref Treoes. Byddai'r adeiladu yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno hanes y pentref a bod yn fan cyfarfod i grwpiau cymunedol, hyfforddiant i drigolion, cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a ffrwd incwm drwy logi'r ystafell gyfarfod.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Enghraifft o broject partneriaeth gyda Chronfa Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n ariannu pecyn cymorth at adfer y Festri. Penodwyd penseiri a disgwylir i'r gwaith ddechrau'n ddiweddarach eleni.

Gwnaed llawer o waith ymgysylltu cymunedol gan y grŵp hanes lleol, gweithio gyda thrigolion a'r ysgol leol, a fydd yn creu'r sylfaen ar gyfer ymrwymiad cymunedol parhaus i'r project.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £3,267

Cyfanswm cost y project: £160,000

Rownd 1

# PWYLLGOR NEUADD EGLWYS SANT-Y-BRID

## GRISIAU A LLOFT A GWAITH CYSYLLTIEDIG



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae Neuadd yr Eglwys wedi'i haddasu'n llwyr yn ystorfa archif hygyrch gyda mwy o le storio i offer tymhorol fel coed Nadolig, addurniadau ac ati. Mae'r llofft yn storfa y gellir ei chloi i ddiogelu cofnodion y plwyf ac amryw gyrff sy'n defnyddio'r neuadd. Mae'r ystorfa ychwanegol yn sicrhau defnydd gwell o weddill y gofod sydd ar gael.

*"Gan fod nifer o'r gwirfoddolwyr sy'n helpu'r amryw weithgareddau yn y neuadd yn hen, mae mynediad diogel i'r llofft yn bryder mawr. Mae'r grisiau'n gweddu gystal fel nad yw amryw ddefnyddwyr rheolaidd y neuadd wedi sylwi arnynt. Joban dda! Mae'r neuadd yn gwasanaethu trawstoriad eang o'r gymuned. Mae'n anodd rhoi union ffigur ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r neuadd ond mae'n gannoedd gan fod gan y Llyfrgell ar ei phen ei hun dros gant o ddefnyddwyr cofrestredig. Caiff y Neuadd ei defnyddio'n helaeth ond o edrych at y dyfodol ychydig iawn o slotiau amser sydd ar gael yn ystod yr wythnos ac rydym wedi cael ymholiad am ddosbarth i ddefnyddwyr peiriannau gwnïo. Rydyn ni wir yn ddiolchgar am y grant"*

### Amlinelliad o'r Project

Gosod grisiau i'r llofft a'r holl waith cysylltiedig i wneud y fan storio'n y llofft yn hygyrch i bawb. Mae hefyd ofyniad i'r goleuadau gael eu haddasu yn y neuadd groesawu.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £7,975.60

Cyfanswm cost y project: £8,976

Rownd 4

# SINEMA GYMUNEDOL SILI

## OFFER SINEMA




### Amlinelliad o'r Project

Prynu dau chwaraewr blu-ray/dvd o safon i alluogi deunyddiau sydd wedi'u creu'n lleol mewn cysylltiada â digwyddiadau cymunedol i gael eu dangos cyn symud ymlaen yn rhwydd at y brif ffilm. Mae offer atodol megis dyfais switsys a chyfleuster monitro hefyd wedi'u darparu ynghyd â bocs teledu Free-view i alluogi pobl i wylio digwyddiadau o ddiddordeb cymunedol megis y briodas frenhinol.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r offer rac gosodadwy wedi'i osod a ddefnyddiwyd yn gyhoeddus am y tro cyntaf ar y 20 Mai. Mae'r grwp bellach yn edrych ymlaen at ehangu ystod ac amlder y ffilmiau fydd yn cael eu dangos i'r gymuned leol ynghyd â defnyddio'r offer i ddangos digwyddiadau pwysig megis Gemau Rygbi Rhyngwladol yr Hydref.

*"Mae'r holl offer sinema wedi'i osod ac mae'n cynnig profiad gwych o safon yr oeddem wedi gobeithio amdano"*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £1,857

Cyfanswm cost y project: £1,857

Rownd 2

# THE EXCHANGE

## DYLUNIO, YMARFEROLDEB AC YMGYNGHORI



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Roedd angen cymorth ffioedd dylunio ers i leoliad y project symud i safle newydd ar ochr ddwyreiniol y Butts (uchod). Talodd y grant am gost ail-ddylunio cynllun, mynediad, ôl-troed a gwasanaethu a chefnogi mwy o ymgynghori manwl angenrheidiol i egluro'r canlynol:

- Anghenion ymarferol llogwyr posibl (Marchnad Ffermwyr, Gŵyl Bwyd a Diod, Digwyddiadau Cynnyrch a Chrefft Eraill, Trefnwyr Digwyddiadau Cymunedol, Grwpiau Defnyddwyr Cymuned) o ran cynllun, mynediad, gwasanaethau ac ati.
- Y galw / cyfleoedd am waith partneriaeth arall â darparwyr sector preifat a chyhoeddus eraill yn y caffi cymunedol ag agweddau eraill hyfforddiant, cyflogaeth a gwirfoddoli'r project

*"Rhoddodd yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid cymuned a busnes yn benodol hyder o'r newydd i ni fwrw ymlaen â'r project, a diwygio dyluniadau'n unol â'r adborth a gafwyd. Mae'r cam hwnnw felly'n gam rhagarweiniol pwysig i sicrhau bod project terfynol yr Exchange yn addas i ddefnyddwyr, yn gynaliadwy, yn seiliedig ar angen clir a thystiolaeth, gyda chefnogaeth y gymuned."*

### Amlinelliad o'r Project

Mae'r Exchange yn broject adfywio sydd am roi 'neuadd farchnad' newydd i ganol tref y Bont-faen, i osod marchnad gynnyrch a chrefftau wythnosol, ffeiriau celf a chrefft, digwyddiadau, a safle posibl am ŵyl fwyd. Ceisir y grant at gost ffioedd dylunio a chyfres o weithgareddau ymgynghori.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £10,000

Cyfanswm cost y project: £10,000

Rownd 2

# THE MEMORY JAR, Y BONT-FAEN

## TAFLUNYDD RHYNGWEITHIOL



### Amlinelliad o'r Project

Mae'r grant yn darparu arian i brynu taflunydd rhyngweithiol newydd cyffrous. Bydd hyn yn darparu ystod eang o brofiadau synhwyraidd newydd i annog ymgysylltiad cymdeithasol, gweithgarwch corfforol ac ysgogiad emosiynol, gan wella ansawdd bywyd pawb sy'n ei ddefnyddio.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae The Memory Jar yn fan cyfarfod bob pythefnos i bobl sy'n byw gyda dementia. Mewn awyrgylch gofalgar a chefnogol, mae'r grŵp yn rhannu atgofion, yn gwneud ffrindiau – ac yn cael hwyl. Ers i The Memory Jar agor, mae nifer y bobl yn mynd iddi wedi cynyddu'n gyson, ac mae wedi helpu i newid natur y ddarpariaeth ar gyfer gofal dementia yn y Bont-faen a'r cyffiniau.

*"Mae'r taflunydd modern hwn, y mae ei ddyluniad wedi ennill Gwobr Gofal Dementia Cenedlaethol yn 2018, yn adnodd amhrisiadwy i gartrefi gofal, caffis cof a chlybiau ledled y DU."*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £2,000

Cyfanswm cost y project: £7,896

Rownd 5

# NEUADD GYMUNEDOL TREOES

## ADNEWYDDU'R NEUADD



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r gwaith adnewydd wedi llwyddo I newid golwg a naws y Neuadd, gan ei gwneud yn fwy modern a deniadol. Mae'r grwpiau oedd wedi bod yn defnyddio'r neuadd yn rheolaidd ond oedd yn ystyried symud i leoliad arall wedi dewis aros, gan roi adborth eu bod nhw'n falch iawn o'r gwaith adnewyddi. Dim ond wythnos ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu, derbyniwyd cais gan grŵp o gerddorion i ddefnyddio'r Neuadd am 3 awr bob dydd Sadwrn, a chan Grŵp Celf oedd am ddefnyddio'r neuadd unwaith yr wythnos ar ddau fore gwahanol. Effaith yr archebion ychwanegol hyn yw bod y Neuadd yn cael ei ddefnyddio'n ystod y dydd o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn, ac mae nosweithiau Mawrth a Mercher bellach yn gallu cynnal eu hunain gyda'r incwm rhent sy'n dod i mewn. Mae'r Neuadd yn edrych yn dda ac mae'n llawer mwy deniadol ar y tu mewn a'r tu allan.

*"Nododd adborth gan aelodau hŷn y gymuned, yn enwedig y Grŵp Young at Heart, eu bod nhw'n falch iawn o gael cadeiriau cyfforddus a modern i eistedd arnynt yn hytrach na'r rhai hen plastig oedd fel bwcedi!!"*

### Amlinelliad o'r Project

Cafodd y neuadd ei hadnewyddu'n gyfan gwbl - paentio'r tu mewn, carped newydd yn y fynedfa, drysau tân newydd, bleindiau ffenestri fertigol newydd, ambell i fwrdd newydd a newid yr holl gadeiriau, offer cegin ychwanegol e.e. wrn mawr, cafetieres, cwpanau a soseri ac ati.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £5,839

Cyfanswm cost y project: £6, 647

Rownd 1

# CYMDEITHAS PRESWYLWR TŶ CADOG

## GERDDI CYMUNEDOL



### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r holl brojectau gardd cymunedol a wneir gan y gymdeithas yn seiliedig ar ddod â'r gymuned ynghyd a chymdeithasu yn ogystal ag addysgu ac annog gofal ar gyfer yr amgylchedd a bywyd gwyllt.  Yn ddiweddar, clywodd y grŵp ei fod wedi llwyddo i gael grantiau gan Sefydliad y Maer a chyllid allanol arall, sy'n golygu y gall y Grant Cymunedau Cryf gael ei ddychwelyd i'r gronfa.

***"Drwy sgyrsiau mae nifer o bobl wedi sôn am sut yr hoffent gael planhigion ond nad ydynt yn gwybod sut i'w tyfu na'u cynnal. Drwy'r project hwn gallwn addysgu sgiliau garddio newydd iddynt. Mae'r trigolion iau hefyd yn cael budd o'r gerddi gan y bydd yn dysgu iddynt am yr amgylchedd. Gall teuluoedd hefyd fynd ymlaen i fwynhau garddio gyda'i gilydd a gwylio pethau'n tyfu. Bydd ein project yn ychwanegu gwerth at ein gweithgareddau presennol drwy barhau â'n thema o fod ynghyd a'r amgylchedd a gofalu am yr amgylchedd ac addysgu amdano".***

### Amlinelliad o'r Project

Hoffai'r grŵp adnewyddu hen amgylchiadau pren yr ardd. Hoffai hefyd ychwanegu planhigion a phridd newydd a fydd yn denu bywyd gwyllt a phryfed a helpu i wella bioamrywiaeth. Bydd gwirfoddolwyr yn y gymuned yn cynnal y gerddi.  Ar ôl i'r gerddi gael eu cwblhau, mae'n bwriadu gwneud projectau eraill yn y gymuned fel gwestai pryfed ac adeiladu blychau adar.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £949

Cyfanswm cost y project: £2,199

Rownd 3

# CLWB GWAITH CARTREF RHIENI/ PLANT Y FRO

HYFFORDDIANT CYMORTH / GWIRFODDOL I'R CLWB GWAITH CARTREF




## Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae project FEED yn enghraifft o sut mae unigolion yn gallu effeithio ar newid arloesol a mawr er budd eu cymunedau. Yn ddiweddar, bu farw arweinydd y project, Catherine Watkins MBE, wrth i'r project gael ei gyflawni. Fodd bynnag, gan adeiladu ar lwyddiant y project FEED yn y Rhws sy'n cefnogi plant ac oedolion mewn addysg a datblygiad, mae'r gwaith sylfaenol hefyd wedi'i osod i ganiatáu i'r model dysgu cymunedol arloesol hwn barhau.

Gyda chymorth gan y Grant Cymunedau Cryf, cyfarfodydd rhwydwaith ac ymgysylltu cymunedol helaeth yn Sain Tathan a Llanilltud Fawr, nodwyd diddordeb mawr gan gyfranogwyr a gwirfoddolwyr posibl yn y ddwy gymuned. Cyflawnwyd targedau'n unol ag ymrwymiadau yn y cais.

## Amlinelliad o'r Project

Bydd project FEED yn gwella cymunedau lleol Sain Tathan a Llanilltud Fawr gan greu Cydlyniad Cymunedol; mae'n seiliedig ar raglen genedlaethol benigamp sydd wedi gweithio droeon mewn amryw astudiaethau meintiol, gwasanaeth strwythuredig i gynnig dull cyfannol o ymdrin â rhaglenni addysg a datblygu mewn chwarae a chwaraeon i'r teulu. Sefydlwyd y rhaglen benigamp yn defnyddio arferion gorau AGGCC ers 6 blynedd.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £9508.00

Cyfanswm cost y project: £9508.00

Rownd 2

# Y FRO A MWY

## GWASANAETH ALLGYMORTH LLANILLTUD FAWR




### Amlinelliad o'r Project
Hoffai'r grŵp ddisodli'r rhannwr ystafell presennol â drysau deublyg, mae'r rhanwyr presennol yn drwm ac yn anodd eu symud i nifer o'r grwpiau. Hoffai hefyd brynu byrddau ysgafn a throli i'w cadw arno.

### Adroddiad Cynnydd – parhaus
Gan weithredu ers 2001, mae ValePlus yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes drwy raglenni achrededig i oedolion sydd ag anableddau dysgu. Mae ValePlus yn darparu lle i 90 o unigolion (18-65 oed) ar draws pedwar safle. Maent yn darparu hyfforddiant ystyrlon i'w defnyddwyr gwasanaeth i helpu i ddatblygu hyder ac annibyniaeth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys hyfforddiant sgiliau hanfodol, garddwriaeth, coginio, TGCh, datblygiad personol a chymdeithasol, celf, crefft a gwaith coed. Mae ValePlus hefyd yn darparu profiad gwaith ym maes manwerthu drwy eu siop elusen a phrofiad arlwyo drwy'r caffi, ar stryd fawr y Barri.
Mae'r sefydliad wedi ehangu ei wasanaethau'n ddiweddar drwy ymgymryd â lleoliad newydd yng Ngorllewin y Fro i gynyddu nifer y cleientiaid y gall darparu gwasanaethau iddynt o 10 i 16 y dydd yn ogystal â chynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau y mae'n eu cynnig i ddysgwyr.

"Ffocws ein prosiect yw gwella ansawdd y ddarpariaeth yn Llanilltud Fawr a'r gallu i ddarparu gwasanaeth i fwy o oedolion sydd ag anawsterau dysgu yng Ngorllewin y Fro"

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £9,640

Cyfanswm cost y project: £9,640

Rownd 5

# NEUADD BENTREF GWENFÔ

## GWELLIANNAU HYGYRCHEDD



### Amlinelliad o'r Project

Hoffai'r grŵp ddisodli'r rhannwr ystafell presennol â drysau deublyg, mae'r rhanwyr presennol yn drwm ac yn anodd eu symud i nifer o'r grwpiau. Hoffai hefyd brynu byrddau ysgafn a throli i'w cadw ynddo.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Bu'r gwaith yn llwyddiannus a phrynwyd offer newydd. Mae'r drws deublyg newydd yn galluogi'r grŵp i ystyried cyfleoedd marchnata newydd i'r neuadd ar gyfer mathau gwahanol o ddigwyddiadau a llogwyr gan ei fod yn golygu bod modd agor y ganolfan ymhellach. Mae'n agor y gofod i gael ei ddefnyddio'n fwy hyblyg a'i rannu'n ddau'n hawdd os yw dau grŵp am ei logi'r un pryd. Mae mwy o ymholiadau bellach yn cael eu gwneud ar lafar gan fod y cyfleusterau'n fwy deniadol i ddefnyddwyr. Fel bonws ychwanegol, mae tresi diangen wedi'u hailgylchu i ddefnyddio fel llawr yn y llofft, gan roi mwy o osod storio ar gael i ddefnyddwyr y neuadd.

*"Mae'r drysau newydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, yn benodol i rai o'n defnyddwyr hŷn sy'n ei chael yn llawer haws defnyddio'r neuadd"*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £8,146

Cyfanswm cost y project: £8,146

Rownd 3

# COED HILLS

## PWYSWR AFALAU



### Amlinelliad o'r Project

Hoffai'r grŵp brynu gwasgwr ffrwythau i hwyluso gwasgu ffrwythau lleol yn Saint Hilari a'r pentrefi a'r trefi cyfagos i gynorthwyo'r gymuned leol i wneud defnydd o'r ffrwythau hyn âi i wastraff fel arall.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

*"Mae Cymuned Bryniau'r Coed a Saint Hilari wrth ei bodd â'r offer gwasgu afalau newydd hwn a gafwyd drwy Grant Cymunedau Cryfach. Mae gennym aelodau o'r gymuned sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r offer a hyd yma mae 5+ o bobl yn gwybod sut i weithio'r offer gwasgu. Mae'r llawer mwy cynhyrchiol na'r hen offer llai dibynadwy yr oedd gennym gynt. Cafwyd digon o afalau eleni a hyd yma mae 4 sesiwn wasgu wedi digwydd hyd yma, gyda phumed yn nigwyddiad y farchnad cynnyrch ar 13 Hydref. Daw pobl o'r pentref a'r treflannau lleol ag afalau i'w gwasgu - mae'n ddigwyddiad rhannu hyfryd sy'n cynnwys teuluoedd".*

Ym Mryniau'r Coed mae'r offer gwasgu afalau wedi galluogi sudd i gael ei rannu â'r grŵp Ysgol Goedwig, digwyddiadau yn y gofod i aelodau'r gymuned byw'n gynaliadwy sy'n byw yma. Mae cynlluniau i wneud seidr eleni a chynllunnir digwyddiadau eraill ar gyfer y tymhorau afalau sydd i'w dod, gan gynnwys sgwrs ac arddangosiad i Sefydliad y Merched. Mae cael yr offer wedi ysgogi grwpiau i ddod ynghyd nad ydynt o reidrwydd wedi dod i gysylltiad â'i gilydd e.e. teuluoedd ac aelodau hŷn o'r pentref sydd wedi rhannu eu hafalau a gadael poteli i'w llenwi â sudd yn y blwch ffôn cymunedol.

### CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £600

Cyfanswm cost y project: £1,000

Rownd 3

# CYMDEITHAS GYMUNEDOL LLYSWYRNY

## CREU CERDDORIAETH YN LLYSWYRNY



**Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd**

Prynwyd yr allweddell yn yr haf, ac mae'n dod â'r gymuned ynghyd mewn ffyrdd newydd. Does gan Llyswyrny ddim man penodol ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol felly mae cael allweddell symudol yn golygu bod llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnal digwyddiadau dan do ac awyr agored mewn lleoliadau gwahanol. Mae diddordeb cynyddol mewn canu corawl a chreu cerddoriaeth yn y pentref fel gweithgaredd cymdeithasol, llesiant ac er mwyn codi arian. Bydd yr allweddell yn meithrin y diddordeb hwn wrth annog ystod ehangach o breswylwyr i fod yn gynulleidfa ac i gymryd rhan.

*"Mae'r allweddell wedi'i gwneud hi'n llawer haws i ganu gyda'n gilydd mewn digwyddiadau blynyddol fel ein 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' a 'Carols around the pond"*

**Amlinelliad o'r Project**

Prynu allweddell i'r gymuned ac chefnogi digwyddiadau diwylliannol a gynhelir yn y pentref.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £239

Cyfanswm cost y project: £572

Rownd 2

# CANOLFAN MARGARET ALEXANDER

## TAFLYNYDD SGRIN AC OFFER SAIN



### Amlinelliad o'r Project

Y project yw prynu offer sydd i'w ddefnyddio gan ystod eang o grwpiau sy'n cwrdd yn rheolaidd yn y ganolfan. Mae'r cais am daflunydd sgrin ac offer sain. Byddai potensial i gynyddu incwm y ganolfan drwy roi offer lle mae angen clir amdano, a fydd yn gwasanaethu grwpiau presennol ac yn denu defnyddwyr newydd.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £993

Cyfanswm cost y project: £993

Rownd 4

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Mae'r system sain drawiadol newydd a'r sgrin fawr wedi cael eu gosod yn llwyddiannus, a phrynwyd y taflunydd erbyn diwedd mis Medi, a gwblhaodd y project. Mae 6 grŵp rheolaidd gyda chyfartaledd o 20 o bobl yn mynychu, sy'n cael budd uniongyrchol o'r system sain newydd, a bellach nid oes angen i grwpiau defnyddwyr ddod â'u systemau sain trwm gyda nhw pob wythnos. Gwnaed argraff fawr ar nifer o aelodau'r grwpiau, ac ymhlith nifer o bobl hŷn. Er enghraifft, i'r cwpl 86 oed sy'n cynnal y grŵp dawnsio, y sesiynau wythnosol yw eu hunig adeg ar gyfer rhyngweithio ac felly mae cyflwr gwell y neuadd yn well iddyn nhw ac yn codi'r bar i bob grŵp.

*"Oherwydd yr offer newydd hwn mae gennym ddau grŵp newydd, y mae un yn grŵp ieuenctid, a fydd yn edrych ymlaen at ddefnyddio ein sgrin fawr i'w sesiynau yn ogystal â'n grŵp rheolaidd 'meddwl am fiwsig'. Ar nodyn personol, cefais foddhad mawr gweld effaith unionsyth y project ar y gymuned. Diolch yn fawr … mae ein neuadd a'r grwpiau sy'n cael budd ohoni'n ei werthfawrogi'n fawr."*

# GRŴP MENYWOD RAINBOW

## 'GEM' BYCHAN RAINBOW



### Amlinelliad o'r Project

Cynnig offer ymarfer corff a hyfforddwr i'w gwneud yn haws i'r grwp i drefnu eu gweithgareddau eu hunain am bris isel. Nod y project yw mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan fenywod lleiafrifoedd ethnig o ran cael mynediad at gyfleoedd iechyd a ffitrwydd ac sy'n wynebu problemau ehangach yn ymwneud ag unigedd. Nodwd bod cysylltiad pendant rhwng iechyd ac ethnigrwydd ac felly mae'n amlwg bod galw mawr am broject fel hyn.

### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Gan redeg sesiynau ymarfer corf wythnosol yng nghanolfan gymunedol Margaret Alexander am ffi o £2, mae'r Grŵp Menywod Rainbow'n bwriadu helpu merched o bob oedran i fyw bywyd mwy actif ac iachus. Mae'r project yn adeiladu ar nodau'r grwp i helpu i fynd i'r afael ag unigedd ymysg menywod sy'n agored i niwed a menywod sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol. Mae'r project yn helpu i wella sgiliau cyfathrebu, dealltwriaeth, parch a rhyngddibyniaeth rhwng pobl o bob grŵp oedran, rhyw a chefndir diwylliannol.

*"Mae'n helpu menywod sydd wedi cyrraedd y Fro i fod yn rhan o gymdeithas…., mae cymryd rhan yn y dosbarthiadau a rhannu hwyl a chwerthin yn eu helpu nhw i newid eu tymer a theimlo'n well"*

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £1,000

Cyfanswm cost y project: £2,456

Rownd 1

# THE GATHERING PLACE

## CLWB CINIO




### Adroddiad Cynnydd - cwblhawyd

Cyfarfu'r clwb am y tro cyntaf y Mai 2018 ac mae'n cwrdd bob yn ail ddydd Llun o bob mis. Er nad oes unrhyw gyfyngiad o ran oedran, ei nod yw rhoi cyfle i breswylwyr hŷn y pentref a phobl eraill sy'n byw tu allan i'r pentref i fwynhau pryd mewn lleoliad cymdeithasol. Roedd preswylwyr a fynychodd y cinio cyntaf yn ei ganmol. Mae grwp craidd o wirfoddolwyr yn teimlo'n ddigon hyderus i redeg y clwb yn y flwyddyn newydd, a does dim cynlluniau ar waith i redeg rhagor o weithgareddau ochr yn ochr â'r clwb cinio megis cwis neu sesiynau crefft.

*"Mae gennym 15 i 20 o bobl sy'n mynychu'n aml, ac mae'r niferoedd yn tyfu. Mae rhai o'r rhain bellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel 'music in mind'. Rydym yn gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau eraill i'r clwb cinio fel y gall pobl glywed am yr ystod eang o wasanaethau sydd ar gael iddynt"*

### Amlinelliad o'r Project

Cynnig Clwb Cinio i bobl hn sy'n byw yn neu o amgylch ardal Sain Tathan. Defnyddiwyd y grant i brynu crochenwaith a chyllyll a ffyrc ac i ariannu cydlynydd am 5 awr y mis ar gyfer blwyddyn cyntaf y project. Mae'r ganolfan gymunedol yn cynnig yr adeilad, y gwres, y goleuadau a'r cyfleusterau am ddim. Cefnogir y clwb gan wirfoddolwyr lleol dan oruchwyliaeth y cydlynydd. Does dim rhaid talu am y bwyd ac mae'r clwb cinio'n bwriadu ariannu ei hun erbyn bl. 2.

CIPOLWG

Cyfanswm y grant: £891.00

Cyfanswm cost y project: £891

Rownd 2

# Drwy gydweithio, gallwn gyflawni gweledigaeth y Cngor am Fro Morgannwg gyda 'Chymunedau Cryf â dyfodol disglair'

